# Pecyn Cymorth Asesu Arwyddocâd Casgliadau ar gyfer Amgueddfeydd Cymru

**Chwefror 2023**

Awduron: Ruth McKew, Jennifer Cragg a Kevin Mason

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflwyniad i Asesiadau o Arwyddocâd Casgliadau

## Pam y mae angen ei wneud?

**Mae llawer o resymau pam y gallech feddwl bod angen i chi gynnal Asesiad o Arwyddocâd Casgliadau.**

**Efallai'ch bod yn dymuno:**

- Deall yn well beth yw gwerth eich casgliadau i'r gymuned leol, y rhanbarth neu'r genedl
- Cael gwybodaeth ar gyfer y broses o resymoli'ch casgliad
- Creu proses gaffael strategol
- Ysgrifennu / diweddaru eich Polisi Datblygu Casgliadau a pholisïau a gweithdrefnau eraill ar gyfer rheoli casgliadau
- Cefnogi cais am grant

## Y 5 Rheswm Pam

Cyn cychwyn ar brosiect asesu arwyddocâd, mae'n bwysig bod gennych syniad clir o'r rhesymau pam i chi ddewis gwneud hynny. Os hoffech wneud prawf pellach i gadarnhau'ch dewis, un o'r technegau penderfynu y gallech ei defnyddio yw'r '5 Whys' a ddatblygwyd gan Sakichi Toyoda, dyfeisiwr a diwydiannwr o Japan. Gallwch chwilio ar y we am ragor o wybodaeth am dechneg Toyoda.

## Y Dull

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cyflwyno dull o ymdrin ag asesiadau o arwyddocâd yn eich amgueddfa. Mae'n defnyddio cyfres o gamau allweddol sydd, y naill ar ôl y llall, yn datblygu i gynnig methodoleg resymegol â'r nod o sicrhau canlyniad llwyddiannus i gasgliadau bach neu fawr.

**Cam 1 – Cynllunio'ch dull gweithredu:** deall cyd-destun y prosiect a'r canlyniadau disgwyliedig

**Cam 2 – Adolygu Casgliadau:** sicrhau y bydd eich systemau a'ch data yn eich helpu i gynnal asesiad o arwyddocâd

**Cam 3 – Yr Asesiad o Arwyddocâd:** Cynlluniau Gweithredu sy'n darparu ar gyfer prif bwrpas eich asesiad o arwyddocâd

**Cam 4 – Adolygu:** asesu a yw prif nodau'ch asesiad o arwyddocâd wedi'u cyflawni

Trwy ddeall yn iawn beth yw'r prif resymau dros yr asesiad, byddwch yn gallu teilwra'ch dull gweithredu er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau. Mae Cam 1, sef cynllunio, yn hanfodol a gall olygu ystyried sawl opsiwn, efallai trwy drafod gyda chydweithwyr neu drwy gael cyngor allanol ar y ffordd ymlaen. Cam 1 yw'r sylfaen ar gyfer Camau 2 – 4, ac mae'n rhaid gwneud y rheiny yn eu trefn. Bydd datblygu dealltwriaeth lawn o ddiben pob un o'r camau hyn yn rhan o'ch proses gynllunio yng Ngham 1.

**Mae gwybodaeth o bob cam yn cyfrannu at gam nesaf y broses, felly mae'n bwysig peidio â thorri corneli trwy neidio dros un o'r camau!**

## Pam y maent mor bwysig?

Mae asesiadau o arwyddocâd yn rhan bwysig o'n gwaith yn y sector amgueddfeydd a threftadaeth. Gellir eu defnyddio i helpu i reoli casgliadau, i dynnu'r gymuned i mewn, i sicrhau cyllid, ac i gyfiawnhau treulio amser a defnyddio adnoddau er mwyn gwarchod gwrthrychau yn eich amgueddfa. Cynlluniwyd y pecyn cymorth hwn i'ch helpu trwy'r broses gam wrth gam, gan sicrhau'ch bod yn ymdrin â'r elfennau allweddol yn y drefn gywir. Yn ogystal, cafodd ei gynllunio mewn ffordd sy'n golygu y gallwch deilwra'r hyn a gynigir i ddiwallu anghenion eich sefydliad a'r bobl a fydd yn gweithio ar yr asesiad.

## A yw hwn yn ddim ond baich arall eto ar ysgwyddau staff amgueddfa sydd eisoes o dan bwysau?

Efallai'ch bod yn teimlo bod hyn yn ddim ond tasg arall eto i'w hychwanegu at eich rhestr gynyddol o 'bethau i'w gwneud', ond mae asesu arwyddocâd eich casgliadau yn broses werthfawr a all wneud lles i sawl agwedd ar waith amgueddfa. Os byddwch yn deall arwyddocâd eich casgliadau'n well, gall eich helpu i ddehongli'r gwrthrychau hynny a'u straeon yn fwy effeithiol, cyfrannu at eich rhaglen ddysgu ffurfiol, bod o gymorth i ddatblygu cynulleidfa, creu cysylltiadau cymunedol newydd, cryfach, a gwneud eich casgliadau'n fwy cynhwysol, ymhlith manteision eraill.

Mae dogfennaeth anghyflawn a diffyg lle i storio pethau yn broblem i'r rhan fwyaf o amgueddfeydd. Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnig dull gweithredu sylfaenol a fydd yn helpu i leihau problemau o'r fath yn y dyfodol ac i sicrhau dealltwriaeth lawnach o'r casgliadau sydd yn eich gofal. Bydd mynd i'r afael ag asesiadau o arwyddocâd casgliadau yn help i sicrhau bod y math hwn o waith yn rhan o'ch gweithdrefnau dogfennu arferol. Dylai ddod yn arferiad naturiol sy'n eich helpu i ddeall y gwrthrychau sydd gennych eisoes, ac sy'n llywio penderfyniadau ynghylch beth i'w dderbyn i'r casgliad a beth y mae angen ei resymoli.

## Does gen i ddim amser!

Dylai cyfiawnhau arwyddocâd eich casgliadau fod yn rhan o'ch gweithgareddau o-ddydd-i-ddydd ac o'ch prosesau rheoli casgliadau. Bydd yr offer sydd yn y pecyn cymorth hwn yn eich galluogi i weithio mewn ffordd fwy deallus gan sicrhau bod llai o waith i'w wneud yn y dyfodol. Efallai y bydd angen datganiadau o arwyddocâd arnoch i gyfiawnhau'ch gweithgareddau i gyrff llywodraethu neu i'r cyhoedd, neu i wneud cais am arian grant. Trwy gynnwys asesu arwyddocâd yn eich gwaith bob-dydd, bydd llawer o'r gwaith caled wedi'i wneud eisoes a gallwch ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod gwaith arwyddocâd blaenorol i ysgrifennu'r datganiadau hynny.

## Bydd yn gostus a dim ond fi sydd yma; does gen i ddim tîm casgliadau!

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio fel mai chi sy'n pennu terfynau'ch prosiect, bach neu fawr, yn unol ag anghenion eich sefydliad, ei adnoddau a'r nodau rydych wedi'u pennu ar gyfer eich asesiad penodol. Yn ogystal, mae wedi'i gynllunio gan feddwl am ystod eang o sefydliadau fel y bydd ei brosesau'n gweithio i'r rhai sydd ag ychydig o adnoddau a'r rhai sy'n gallu gwneud mwy. Bydd y canllawiau'n eich galluogi i gynnal asesiad o arwyddocâd yn rhan o'ch gweithdrefnau lefel derbyn – y tasgau rydych yn eu cyflawni pan gaiff gwrthrych ei gaffael ar gyfer y casgliad. Bydd hyn yn lleihau'r effaith ar eich adnoddau yn y dyfodol trwy osgoi casglu gwrthrychau sy'n eithaf, neu'n hollol, amherthnasol ac y bydd angen eu rhesymoli yn y dyfodol.

# CAM 1

# Cychwyn arni

## Cynllunio'ch Dull Gweithredu

### Yn y Cam hwn, byddwch yn:

**Ystyried cyd-destun eich prosiect**
Sut mae'n cyfateb i genhadaeth a gweledigaeth eich amgueddfa? A ydyw'n cyfrannu at eich diben neu'n helpu i gefnogi'ch cymunedau ac amrywiaeth eich casgliadau?

**Penderfynu beth i'w asesu**
Ydych chi'n mynd i asesu'r casgliad cyfan neu ddewis un maes i'w asesu? Pa adnoddau sydd ar gael i chi? Pam y mae angen i chi asesu'r casgliad neilltuol hwn?

**Ystyried beth y mae arnoch ei angen cyn dechrau**
Ystyriwch agweddau ymarferol eraill ar y prosiect y gall fod angen i chi ymateb iddynt cyn dechrau ar eich Asesiad o Arwyddocâd Casgliadau.

**Deall yr Offer ar gyfer dewis pa gasgliad i'w asesu**
Edrychwch ar y gwahanol daflenni gwaith, matricsau a thaflenni sbarduno sydd yn y Pecyn Cymorth hwn, darllenwch weithiau eraill sydd wedi'u cyhoeddi ar y pwnc, neu lluniwch eich offer eich hun yng nghyd-destun pob cam.

### Gadewch i ni ystyried y cyd-destun

Mae'n hanfodol cynllunio'ch dull o weithredu er mwyn sicrhau'r deilliannau (outcomes) a'r cynnyrch (outputs) angenrheidiol. Gall asesiadau o arwyddocâd fod yn gymhleth a chynnwys trefnu data o wahanol ffynonellau. Felly, mae'n bwysig eich bod yn deall y gwahanol gamau'n iawn ac yn darparu ar eu cyfer. Mynd ati yn y ffordd gywir i weithredu Cam 1 yw'r allwedd i lwyddiant.

Cyn i chi ddechrau'r asesiad, mae'n bwysig deall cyd-destun eich prosiect a'ch sefydliad. Beth yw cefndir y gwaith y byddwch yn ei wneud? Sut mae'ch prosiect asesu arfaethedig yn cyfateb i weledigaeth strategol y sefydliad a'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni? A fydd unrhyw rwystrau'n eich atal rhag cynnal a chwblhau asesiad llwyddiannus?

- Beth yw diben, cenhadaeth a gweledigaeth y sefydliad? Ydi'r rhain yn dal yn berthnasol? A oes angen eu diweddaru?
- Faint rydych chi'n ei wybod / ddeall am benderfyniadau'r gorffennol ynghylch y casgliad a'r defnydd a wnaed ohono? Pam y cafodd rhai gwrthrychau penodol eu casglu? Sut y cawson nhw'u defnyddio? Ar gyfer beth y bwriadwyd eu defnyddio? Dylai'ch ffeiliau hanes, cofnodion y gwrthrychau (cronfeydd data a chopïau caled), a chofnodion a gedwir am brosiectau ac arddangosfeydd yn y gorffennol eich helpu i ateb y cwestiynau hyn.
- A ydi'ch casgliadau'n ymwneud â chymunedau penodol? Os felly, pwy ydyn nhw? A oes un neu fwy o'r cymunedau hynny heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd?

## Penderfynu beth i'w asesu

Pan fyddwch wedi penderfynu cychwyn ar Asesiad o Arwyddocâd Casgliadau, a'ch bod yn deall cyd-destun eich prosiect, mae'n bryd penderfynu ar ba ran o'r casgliad yr hoffech ganolbwyntio. Ydych chi'n mynd i asesu'r casgliad cyfan neu ddewis un maes i'w asesu? Er enghraifft, gallech ddewis asesu casgliad neilltuol o wrthrychau, fel eich casgliad gwisgoedd, er mwyn gweld a oes gan y darnau arwyddocâd arbennig i'r ardal leol a chysylltiad cryf â hi. Efallai y byddwch yn dymuno bod hyd yn oed yn fwy penodol, a dewis un rhan o'ch casgliad gwisgoedd, fel darnau sy'n ymwneud â phlentyndod.

Chi sydd i benderfynu faint o'r casgliad yr hoffech ei asesu. Ystyriwch yr adnoddau sydd ar gael – staff, amser a chyllideb – a'r hyn y mae'n ymarferol ei wneud. Efallai y gwelwch ei bod yn haws canolbwyntio ar un rhan o'r casgliad ar y tro, ac mae hynny'n iawn. Gallwch deilwra'r broses asesu yn ôl anghenion eich sefydliad.

## Beth y mae angen i mi ei ystyried cyn dechrau?

Cyn i chi ddechrau ar y broses asesu, efallai y bydd angen i chi fynd i'r afael ag anawsterau'n ymwneud â dogfennaeth y casgliadau, amgylchiadau storio ac agweddau amgylcheddol. Gallai'r rhain gynnwys: a fydd digon o wybodaeth yn eich dogfennau i gynnal asesiad; diogelwch y mannau lle bydd staff a gwirfoddolwyr yn gweithio; yr angen am Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) ac unrhyw anghenion penodol ar gyfer trin a thrafod / cadwraeth y gwrthrychau sydd i'w hasesu. Byddai'n fuddiol gweithio trwy'r cwestiynau isod:

- Beth yw'r prif anawsterau rheoli sy'n wynebu'ch casgliad? Er enghraifft, ôl-groniad o waith dogfennu, cofnodion anghyflawn ar gyfer y gwrthrychau, diffyg gwybodaeth am darddiad, yr angen i resymoli'ch casgliadau.
- A oes rhyw anawsterau storio a / neu amgylcheddol y mae angen mynd i'r afael â nhw? Er enghraifft, a yw'r storfa lle cedwir y casgliad yn orlawn neu'n anodd mynd iddi? Ydi'r lle'n ddiogel ar gyfer y casgliadau a'r staff / gwirfoddolwyr? A oes rhyw anawsterau cadwraeth y mae angen eu hystyried?
- A oes gennych weithle addas i gynnal yr asesiad? A fydd staff / gwirfoddolwyr yn gallu gweithio yn y storfa neu ddod â gwrthrychau allan o'r storfa i'w hasesu?
- Beth yw'r pethau ymarferol i'w hystyried ar gyfer yr asesiad? Er enghraifft, a fydd angen i staff a gwirfoddolwyr weithio mewn storfa oddi ar y safle neu mewn man arall? Oes gennych chi ffordd o gludo pobl yno? A fydd gofyn i unrhyw un weithio ar ei ben ei hun? Pa weithdrefnau gweithio diogel y mae angen i chi eu rhoi ar waith?

## Offer i'ch helpu i ddewis pa gasgliad i'w asesu

Wrth ystyried pa gasgliad i'w asesu, gallai fod gennych restr o sawl un sydd dan ystyriaeth. Er mwyn penderfynu pa gasgliad neu ran o'r casgliad i ganolbwyntio arno, ac i'ch helpu i ateb rhai o'r ystyriaethau ymarferol a restrir uchod, argymhellir eich bod yn adolygu pob un o'r casgliadau sydd dan ystyriaeth yn erbyn nifer o feini prawf (perthnasedd, dogfennaeth, gwirio lleoliad, storio cywir, yr amgylchedd, goblygiadau o ran adnoddau, anawsterau trin a thrafod, anghenion o ran gweithle a chymorth allanol) ac yn rhoi sgôr iddynt. Rydym wedi datblygu offer i'ch helpu â'r broses hon: **Taflen Waith Gwrthrychau Sampl** a **Taflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth**. Awgrymwn eich bod yn dewis sampl o hyd at 12 gwrthrych ar hap o bob casgliad sydd dan ystyriaeth er mwyn profi'ch systemau rheoli casgliadau a gweld a oes anawsterau posibl o ran dogfennaeth, amgylchedd neu adnoddau. Gallwch ddefnyddio'r **Daflen Waith Gwrthrychau Sampl** i gofnodi sgôr pob un o'r gwrthrychau sampl yn erbyn pob maen prawf, gan roi sgôr gyffredinol i chi ar gyfer y casgliad hwnnw. Yna, gallwch nodi'r sgôr ar y **Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth**. Mae fersiynau Excel o'r ddwy daflen waith i'w gweld ar wefannau Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Casgliadau. Mae fersiynau Word i'w cael yn nes ymlaen yn y Pecyn Cymorth. Bydd hyn yn dangos sut mae pob casgliad sydd dan ystyriaeth wedi sgorio yn erbyn ei gilydd fel y gallwch benderfynu pa un ddylai symud ymlaen i Gam 2 (Adolygu Casgliadau).

# Taflen Waith Gwrthrychau Sampl

Dewiswch hyd at 12 gwrthrych ar hap o bob casgliad sydd dan ystyriaeth a rhoi sgôr iddynt am bob maen prawf ar y daflen waith. Ewch ati i greu un daflen ar gyfer pob casgliad sydd dan ystyriaeth. Bydd hyn yn rhoi sgôr cyfartalog i chi ar y gwaelod ar gyfer pob maen prawf.

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Taflen Waith Gwrthrychau Sampl** | | | | | | | | | | |
| 2 | Defnyddiwch y daflen waith hon i asesu hyd at 12 o wrthrychau o bob un o'r casgliadau sydd o dan ystyriaeth ac yna nodwch sgorau cyfartalog pob casgliad ar y Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth | | | | | | | | | | |
| 3 | **Enw'r Casgliad** | Cegin yr Hen Neuadd | | | | | | | | | |
| 4 | **Gwrthrych** | **Perthnasedd** | **Dogfennaeth** | **Gwirio Lleoliad** | **Storio'n Gywir** | **Amgylchedd** | **Goblygiadau o ran Adnoddau** | **Anawsterau Trin a Thrafod** | **Anghenion o ran gweithle** | **Cymorth Allanol** | |
| 5 | | dim=1 | dim=1 | methu=1 | gwael=1 | gwael=1 | uchel=1 | anodd=1 | sylweddol=1 | asesiad arbenigol=1 | |
| 6 | | hanesyddol=2 | rhestr (inventory)=2 | pasio=3 | hygyrch=2 | digon da=2 | canolig=2 | gweddol=2 | gweddol=2 | adolygiad gan gymheiriaid=2 | |
| 7 | | cyfredol=3 | llawn=3 | | da=3 | da=3 | isel=3 | hawdd=3 | ychydig=3 | asesiad mewnol=3 | |
| 8 | | | | | | | | | | | |
| 9 | **1960.334 Mowld jeli** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | |
| 10 | **1971.109 Rholbren** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | |
| 11 | **1978.211 Torrwr toes** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | |
| 12 | **1982.037 Powlen bwdin** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | |
| 13 | **2000.003 Minsiwr** | 2 | 3 | 3 | 2 | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | |
| 14 | **1987.119 Gwneuthurwr sosejis** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | |
| 15 | **1965.010 Tun bara** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | |
| 16 | **2007.056 Trwyn peipio** | 2 | 3 | 3 | 2 | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | |
| 17 | **1964.073.001 Cwpan** | 2 | 2 | 3 | 3 | 3 | 1 | 1 | 3 | 3 | |
| 18 | **1985.004 Tebot** | 2 | 2 | 3 | 3 | 3 | 1 | 1 | 3 | 3 | |
| 19 | | | | | | | | | | | |
| 20 | | | | | | | | | | | |
| 21 | | | | | | | | | | | |
| 22 | **CYFANSWM (ar gyfer pob colofn)** | 10 | | | | | | | | | CYFANSWM |
| 23 | **Sgôr Cyfartalog y Casgliad (i'w drosglwyddo i'r Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth)** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | 20 |
| 24 | | | | | | | | | | | |
| 25 | | | | | | | | | | | |
| 26 | **Nodiadau** | | | | | | | | | | |
| 27 | Perthnasedd | A ydi'r gwrthrych hwn yn berthnasol i bolisi caffael presennol yr amgueddfa; polisi blaenorol; neu a yw'n amherthnasol hyd y gwyddom? | | | | | | | | | |
| 28 | Dogfennaeth | Gwiriwch ansawdd dogfennaeth yr eitem hon | | | | | | | | | |
| 29 | Gwirio Lleoliad | Rhowch gynnig ar ddefnyddio'ch system ddogfennu i sicrhau y gallwch ddod o hyd i'r gwrthrych hwn | | | | | | | | | |
| 30 | Storio'n Gywir | Aseswch pa mor hygyrch yw'r eitem yn y storfa | | | | | | | | | |
| 31 | Amgylchedd | A ydi hi'n anodd gweithio ar y gwrthrych; a yw'n cael ei gadw o dan amodau gwael; a fyddai angen PPE penodol? | | | | | | | | | |
| 32 | Goblygiadau o ran Adnoddau | A fyddai angen nifer fawr o bobl i adolygu'r math hwn o wrthrych; neu a fyddai anawsterau ariannu penodol? | | | | | | | | | |
| 33 | Anawsterau Trin a Thrafod | A ydi'r eitem yn swmpus neu'n drwm; a oes angen technegau arbennig i'w thrin a'i thrafod? | | | | | | | | | |

Old Hall Kitchen | Chapel | Welsh Costume | Herbarium | +

Ready | Accessibility: Investigate

# Taflen Waith Gwrthrychau Sampl

Defnyddiwch y daflen waith hon i asesu hyd at 12 o wrthrychau o bob un o'r casgliadau sydd o dan ystyriaeth ac yna nodwch sgorau cyfartalog pob casgliad ar y Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth

| **Enw'r Casgliad** | Capel Bethel | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwrthrych** | **Perthnasedd** | **Dogfennaeth** | **Gwirio Lleoliad** | **Storio'n Gywir** | **Amgylchedd** | **Goblygiadau o ran Adnoddau** | **Anawsterau Trin a Thrafod** | **Anghenion o ran gweithle** | **Cymorth Allanol** | |
| | dim=1 | dim=1 | methu=1 | gwael=1 | gwael=1 | uchel=1 | anodd=1 | sylweddol=1 | asesiad arbenigol=1 | |
| | hanesyddol=2 | rhestr (inventory)=2 | pasio=3 | hygyrch=2 | digon da=2 | canolig=2 | gweddol=2 | gweddol=2 | adolygiad gan gymheiriaid=2 | |
| | cyfredol=3 | llawn=3 | | da=3 | da=3 | isel=3 | hawdd=3 | ychydig=3 | asesiad mewnol=3 | |
| | | | | | | | | | | |
| **1934.021 Llyfr gweddi** | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 3 | 3 | 3 | 3 | |
| **1989.002 Sedd** | 2 | 2 | 3 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| **1989.088 Llyfr emynau** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 | |
| **1989.045 Hesor (clustog ben-glin)** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 3 | 3 | 3 | 1 | |
| **1989.033 Baner** | 3 | 2 | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | 2 | 1 | |
| **1989.034 Baner** | 3 | 2 | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | 2 | 1 | |
| **1967.026 Llyfr gweddi** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 | |
| **1989.001 Carreg sylfaen** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | |
| **1989.015 Trywel coffa** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 3 | 3 | 3 | 1 | |
| **1934.022 Medal yr Ysgol Sul** | 3 | 2 | 1 | 1 | 1 | 3 | 3 | 3 | 3 | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM (ar gyfer pob colofn)** | 10 | | | | | | | | | CYFANSWM |
| **Sgôr Cyfartalog y Casgliad (i'w drosglwyddo i'r Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth)** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | 2 | 20 |

**Nodiadau**

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | A ydi'r gwrthrych hwn yn berthnasol i bolisi caffael presennol yr amgueddfa; polisi blaenorol; neu a yw'n amherthnasol hyd y gwyddom? |
| Dogfennaeth | Gwiriwch ansawdd dogfennaeth yr eitem hon |
| Gwirio Lleoliad | Rhowch gynnig ar ddefnyddio'ch system ddogfennu i sicrhau y gallwch ddod o hyd i'r gwrthrych hwn |
| Storio'n Gywir | Aseswch pa mor hygyrch yw'r eitem yn y storfa |
| Amgylchedd | A ydi hi'n anodd gweithio ar y gwrthrych; a yw'n cael ei gadw o dan amodau gwael; a fyddai angen PPE penodol? |
| Goblygiadau o ran Adnoddau | A fyddai angen nifer fawr o bobl i adolygu'r math hwn o wrthrych; neu a fyddai anawsterau ariannu penodol? |
| Anawsterau Trin a Thrafod | A ydi'r eitem yn swmpus neu'n drwm; a oes angen technegau arbennig i'w thrin a'i thrafod? |

Old Hall Kitchen | Chapel | Welsh Costume | Herbarium | +

Ready | Accessibility: Investigate

Capel

# Taflen Waith Gwrthrychau Sampl

Defnyddiwch y daflen waith hon i asesu hyd at 12 o wrthrychau o bob un o'r casgliadau sydd o dan ystyriaeth ac yna nodwch sgorau cyfartalog pob casgliad ar y Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth

| **Enw'r Casgliad** | Y Wisg Gymreig | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwrthrych** | **Perthnasedd** | **Dogfennaeth** | **Gwirio Lleoliad** | **Storio'n Gywir** | **Amgylchedd** | **Goblygiadau o ran Adnoddau** | **Anawsterau Trin a Thrafod** | **Anghenion o ran gweithle** | **Cymorth Allanol** | |
| | dim=1 | dim=1 | methu=1 | gwael=1 | gwael=1 | uchel=1 | anodd=1 | sylweddol=1 | asesiad arbenigol=1 | |
| | hanesyddol=2 | rhestr (inventory)=2 | pasio=3 | hygyrch=2 | digon da=2 | canolig=2 | gweddol=2 | gweddol=2 | adolygiad gan gymheiriaid=2 | |
| | cyfredol=3 | llawn=3 | | da=3 | da=3 | isel=3 | hawdd=3 | ychydig=3 | asesiad mewnol=3 | |
| **1946.112 Gŵn** | 3 | 3 | 3 | 2 | 3 | 3 | 2 | 3 | 2 | |
| **1994.017 Het uchel** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | |
| **1948.005 Ffedog â phoced** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | |
| **1936.045 Betgwn** | 3 | 3 | 3 | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | |
| **1936.032 Hosanau** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | |
| **1948.015 Siôl** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 | |
| **2005.112 Cap** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | |
| **1994.025 Pais** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 | |
| **1997.023 Mantell** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | |
| **1998.100 Hances** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | |
| **CYFANSWM (ar gyfer pob colofn)** | 10 | | | | | | | | | CYFANSWM |
| **Sgôr Cyfartalog y Casgliad (i'w drosglwyddo i'r Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth)** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 26 |

**Nodiadau**

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | A ydi'r gwrthrych hwn yn berthnasol i bolisi caffael presennol yr amgueddfa; polisi blaenorol; neu a yw'n amherthnasol hyd y gwyddom? |
| Dogfennaeth | Gwiriwch ansawdd dogfennaeth yr eitem hon |
| Gwirio Lleoliad | Rhowch gynnig ar ddefnyddio'ch system ddogfennu i sicrhau y gallwch ddod o hyd i'r gwrthrych hwn |
| Storio'n Gywir | Aseswch pa mor hygyrch yw'r eitem yn y storfa |
| Amgylchedd | A ydi hi'n anodd gweithio ar y gwrthrych; a yw'n cael ei gadw o dan amodau gwael; a fyddai angen PPE penodol? |
| Goblygiadau o ran Adnoddau | A fyddai angen nifer fawr o bobl i adolygu'r math hwn o wrthrych; neu a fyddai anawsterau ariannu penodol? |
| Anawsterau Trin a Thrafod | A ydi'r eitem yn swmpus neu'n drwm; a oes angen technegau arbennig i'w thrin a'i thrafod? |

Old Hall Kitchen | Chapel | Welsh Costume | Herbarium | +

Ready | Accessibility: Investigate

Y Wisg Gymreig

**Taflen Waith Gwrthrychau Sampl**

Defnyddiwch y daflen waith hon i asesu hyd at 12 o wrthrychau o bob un o'r casgliadau sydd o dan ystyriaeth ac yna nodwch sgorau cyfartalog pob casgliad ar y Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth

| **Enw'r Casgliad** | Herbariwm Mrs Pritchard | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwrthrych** | **Perthnasedd** | **Dogfennaeth** | **Gwirio Lleoliad** | **Storio'n Gywir** | **Amgylchedd** | **Goblygiadau o ran Adnoddau** | **Anawsterau Trin a Thrafod** | **Anghenion o ran gweithle** | **Cymorth Allanol** | |
| | dim=1 | dim=1 | methu=1 | gwael=1 | gwael=1 | uchel=1 | anodd=1 | sylweddol=1 | asesiad arbenigol=1 | |
| | hanesyddol=2 | rhestr (inventory)=2 | pasio=3 | hygyrch=2 | digon da=2 | canolig=2 | gweddol=2 | gweddol=2 | adolygiad gan gymheiriaid=2 | |
| | cyfredol=3 | llawn=3 | | da=3 | da=3 | isel=3 | hawdd=3 | ychydig=3 | asesiad mewnol=3 | |
| | | | | | | | | | | |
| **1947.033** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | |
| **1947.067** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | |
| **1947.089** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | |
| **1947.012** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | |
| **1947.065** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | |
| **1947.124** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | |
| **1947.009** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | |
| **1947.024** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | |
| **1947.112** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | |
| **1947.077** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM (ar gyfer pob colofn)** | 10 | | | | | | | | | CYFANSWM |
| **Sgôr Cyfartalog y Casgliad (i'w drosglwyddo i'r Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth)** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | 21 |

**Nodiadau**

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | A ydi'r gwrthrych hwn yn berthnasol i bolisi caffael presennol yr amgueddfa; polisi blaenorol; neu a yw'n amherthnasol hyd y gwyddom? |
| Dogfennaeth | Gwiriwch ansawdd dogfennaeth yr eitem hon |
| Gwirio Lleoliad | Rhowch gynnig ar ddefnyddio'ch system ddogfennu i sicrhau y gallwch ddod o hyd i'r gwrthrych hwn |
| Storio'n Gywir | Aseswch pa mor hygyrch yw'r eitem yn y storfa |
| Amgylchedd | A ydi hi'n anodd gweithio ar y gwrthrych; a yw'n cael ei gadw o dan amodau gwael; a fyddai angen PPE penodol? |
| Goblygiadau o ran Adnoddau | A fyddai angen nifer fawr o bobl i adolygu'r math hwn o wrthrych; neu a fyddai anawsterau ariannu penodol? |
| Anawsterau Trin a Thrafod | A ydi'r eitem yn swmpus neu'n drwm; a oes angen technegau arbennig i'w thrin a'i thrafod? |

Old Hall Kitchen | Chapel | Welsh Costume | Herbarium

Herbariwm

# Taflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth

Yn awr, trosglwyddwch y sgorau cyfartalog o bob casgliad sydd dan ystyriaeth ar y Daflen Waith Gwrthrychau Sampl i'r Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth. Bydd hyn yn rhoi sgôr cyfartalog cyffredinol i chi ar gyfer pob casgliad sydd dan ystyriaeth. Y casgliad â'r sgôr uchaf yw'r casgliad cryfaf o'r rhai sydd dan ystyriaeth i fynd ymlaen i gael ei asesu.

**Taflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth** **4**

(Yn yr enghraifft hon, casgliad y Wisg Gymreig yw'r casgliad cryfaf o'r rhai sydd dan ystyriaeth i fynd ymlaen i gael eu hasesu)

| Enw'r Casgliad | Perthnasedd | Dogfennaeth | Gwirio Lleoliad | Storio'n Gywir | Amgylchedd | Goblygiadau o ran Adnoddau | Anawsterau Trin a Thrafod | Anghenion o ran gweithle | Cymorth Allanol | SCORE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | dim=1 | dim=1 | methu=1 | gwael=1 | gwael=1 | uchel=1 | anodd=1 | sylweddol=1 | asesiad arbenigol=1 | |
| | hanesyddol=2 | rhestr (inventory)=2 | pasio=3 | hygyrch=2 | digon da=2 | canolig=2 | gweddol=2 | gweddol=2 | adolygiad gan gymheiriaid=2 | |
| | cyfredol=3 | llawn=3 | | da=3 | da=3 | isel=3 | hawdd=3 | ychydig=3 | asesiad mewnol=3 | |
| **Cegin yr Hen Neuadd** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 1 | 1 | 3 | 3 | 19 |
| **Capel Bethel** | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | 2 | 21 |
| **Y Wisg Gymreig** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 26 |
| **Yr Herbariwm** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | 21 |
| | | | | | | | | | | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 |

**Nodiadau**

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | Mae hyn yn cyfeirio at berthnasedd i bolisi caffael presennol yr amgueddfa; polisi blaenorol; neu a yw'n amherthnasol hyd y gwyddom? |
| Dogfennaeth | Gwiriwch sampl gynrychioliadol i asesu ansawdd y ddogfennaeth |
| Gwirio Lleoliad | Rhowch gynnig ar y system rheoli lleoliad i sicrhau y gallwch ddod o hyd i wrthrychau yn y casgliad |
| Storio'n Gywir | Aseswch pa mor hygyrch yw'r storfa a'r eitemau yn y storfa |
| Amgylchedd | A ydi hi'n anodd gweithio ar y casgliad; a yw'n cael ei gadw o dan amodau gwael; a fyddai angen PPE penodol? |
| Goblygiadau o ran Adnoddau | A fyddai angen nifer fawr o bobl i adolygu'r casgliad hwn; neu a fyddai anawsterau ariannu penodol? |
| Anawsterau Trin a Thrafod | A ydi'r eitemau'n swmpus neu'n drwm; a oes angen technegau arbennig i'w trin a'u trafod? |
| Anghenion o ran Gweithle | A oes angen i chi weithio mewn amgylchedd penodol; faint o le y mae ei angen i asesu eitemau yn y casgliad? |
| Cymorth Allanol | A allwch chi gynnal adolygiad ansoddol o fewn y sefydliad neu a oes angen cymorth allanol arnoch? |

Candidate Collections

Dylid defnyddio'r **Daflen Waith Gwrthrychau Sampl** a'r **Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth** gyda'i gilydd, gyda'r naill yn cyfrannu at y llall. Mae'r ddwy ar ffurf rhestr wirio â sgorau (ffeil Excel) ond efallai y byddai'n well gennych chi ddefnyddio dull mwy ansoddol (qualitative). Gall sgorio fod yn ddefnyddiol ond gall fod yn rhwystr os dibynnir ormod ar fesurau mympwyol. Mae angen defnyddio ac addasu'r system sgorio yn ddoeth er mwyn cyflawni'ch nodau a dewis beth sy'n gweithio i chi. Gallwch ddefnyddio'r copïau gwag isod o'r ddau offeryn i gyfrifo'r cyfartaleddau drosoch eich hunan a/neu fabwysiadu dull mwy ansoddol, ac mae fersiynau Excel yma a fydd yn cyfrifo'r cyfartaleddau drosoch.

Efallai'ch bod yn meddwl tybed pam y mae angen i chi wneud hyn – mae gennych syniad eisoes pa gasgliad yr hoffech ei asesu! Fodd bynnag, wrth weithio trwy'r broses hon, gallech weld y byddai casgliad arall yn well i'w asesu yn seiliedig, er enghraifft, ar ansawdd y ddogfennaeth, hygyrchedd (accessibility) storio, a'r cymorth allanol sydd ar gael (gwaith arbenigol). Gallech sylwi ar anawsterau gyda chasgliadau eraill sydd dan ystyriaeth, a gallwch fynd i'r afael â'r rhain cyn iddynt fynd ymlaen i'w hasesu fel rhan o brosiect arall yn y dyfodol.

Y casgliadau â'r sgôr uchaf fydd yr ymgeiswyr cryfaf i fynd ymlaen i Gam 2 ac yn y pen draw, i gael asesiad o arwyddocâd. Os oeddech wedi gobeithio asesu casgliad penodol ond nad yw'n cael sgôr uchel, efallai y bydd angen i chi fynd i'r afael â'r anawsterau a'r rhwystrau sy'n atal asesu'r casgliad hwnnw cyn y gallwch fynd ymlaen i asesu arwyddocâd y gwrthrychau.

## Ar ôl i chi gwblhau Cam 1, dylech fod yn gallu ateb y tri chwestiwn hollbwysig isod:

- Pa gasgliad fyddwch chi'n symud ymlaen ag ef i Gam 2?
- Pam y mae angen i chi ddeall arwyddocâd y casgliad neu ran o'r casgliad?
- Pa adnoddau fydd yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â phrosesau asesu arwyddocâd?

## Astudiaeth achos

### Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod

Yn yr amgueddfa annibynnol boblogaidd hon, prif gryfderau'r casgliad yw pwysigrwydd cenedlaethol elfennau o'r casgliad celf ac arwyddocâd cymunedol nifer o'r casgliadau eraill. Cynhaliwyd adolygiad yn 2021 gan fod angen gwneud rhywfaint o resymoli ar y casgliad er mwyn lleihau anawsterau storio. Roedd yr amgueddfa'n gweld nad dad-dderbynodi (deaccessioning) oedd yr unig ateb o reidrwydd ac efallai y byddai dewisiadau eraill yn bosibl, yn cynnwys ad-drefnu a blaenoriaethu system storio'r casgliad. Wrth gynllunio dull gweithredu, roedd rhai casgliadau hanes cymdeithasol yn ymddangos yn llai perthnasol i genhadaeth gyfredol yr amgueddfa, ond roedd y ffaith fod yno gymaint o ddeunydd a hwnnw mor amrywiol yn dylanwadu i raddau ar y canfyddiad hwnnw. Cytunai'r amgueddfa ei bod yn rhaid cadarnhau gwerth artistig a/neu hanesyddol y casgliadau oedd dan ystyriaeth trwy gyfeirio at yr holl wybodaeth gysylltiedig er mwyn cael data cywir yn sail i'r penderfyniadau ynghylch rhesymoli. Felly, dangosodd gwaith yng Ngham 1 fod angen adolygu'r casgliadau a'r ddogfennaeth ac archwilio'r wybodaeth gysylltiedig yn drylwyr. Mae'r amgueddfa wrthi'n gweithio'n raddol drwy broses Cam 2 gan ddefnyddio'r system fwyaf addas ar gyfer natur y casgliad hanes cymdeithasol. Gall proses Cam 2 gymryd amser, ond mae'n rhaid cael dealltwriaeth glir o'r ffeithiau am wrthrych er mwyn gwneud penderfyniadau dilys am resymoli.

# Taflen Waith Gwrthrychau Sampl

Defnyddiwch y ddalen hon i gyfrifo sgôr gyfartalog pob casgliad yn barod i'w throsglwyddo i'r Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth

| **RHESTR O WRTHRYCHAU A DDEWISWYD AR HAP O'R CASGLIAD A ENWIR ISOD** | **Perthnasedd** | **Dogfennaeth** | **Gwirio Lleoliad** | **Storio'n Gywir** | **Amgylchedd** | **Goblygiadau o ran Adnoddau** | **Anawsterau Trin a Thrafod** | **Anghenion o ran Gweithle** | **Cymorth Allanol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| …………………………………………..<br>Enw'r Casgliad | dim=1<br>hanesyddol=2<br>cyfredol=3 | dim=1<br>rhestr (inventory)=2<br>llawn=3 | methu=1<br>pasio=3 | gwael=1<br>hygyrch=2<br>da=3 | gwael=1<br>digon da=2<br>da=3 | uchel=1<br>canolig=2<br>isel=3 | anodd=1<br>gweddol=2<br>hawdd=3 | sylweddol=1<br>gweddol=2<br>ychydig=3 | asesiad arbenigol=1<br>adolygiad gan gymheiriaid=2<br>asesiad mewnol=3 |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM, (ar gyfer pob colofn)** | | | | | | | | | |
| **CYFARTALEDD (rhannwch y cyfanswm â nifer yr eitemau a thalgrynnu i lawr i rif cyfan)<br>YNA, trosglwyddwch ganlyniadau cyfartalog y casgliad hwn i'r DAFLEN WAITH CASGLIADAU DAN YSTYRIAETH** | | | | | | | | | |

**Nodiadau**

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | A ydi'r gwrthrych hwn yn berthnasol i bolisi caffael presennol yr amgueddfa; polisi blaenorol; neu a yw'n amherthnasol hyd y gwyddom? |
| Dogfennaeth | Gwiriwch ansawdd dogfennaeth yr eitem hon |
| Gwirio Lleoliad | Rhowch gynnig ar ddefnyddio'ch system ddogfennu i sicrhau y gallwch ddod o hyd i'r gwrthrych hwn |
| Storio'n Gywir | Aseswch pa mor hygyrch (accessible) yw'r storfa a'r eitemau yn y storfa |
| Amgylchedd | A ydi hi'n anodd gweithio ar y gwrthrych; a yw'n cael ei gadw o dan amodau gwael; a fyddai angen PPE penodol? |
| Goblygiadau o ran Adnoddau | A fyddai angen nifer fawr o bobl i adolygu'r math hwn o wrthrych; neu a fyddai anawsterau ariannu penodol? |
| Anawsterau Trin a Thrafod | A ydi'r eitem yn swmpus neu'n drwm?; a oes angen technegau arbennig i'w thrin a'i thrafod? |
| Anghenion o ran Gweithle | A oes angen i chi weithio ar y gwrthrych mewn amgylchedd penodol?; faint o le y mae ei angen i asesu'r eitem? |
| Cymorth Allanol | Allwch chi gynnal adolygiad ansoddol yn fewnol yn y sefydliad neu a oes angen cymorth allanol arnoch? |

**Os ydych yn asesu un eitem yn hytrach na chasgliad, gallwch nodi'r canlyniad yn syth ar y Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth.**

# Taflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth

Defnyddiwch hon i gynnal gwiriad sylfaenol i weld pa gasgliadau neu wrthrychau allai fod yn brif bosibiliadau ar gyfer Adolygu Casgliadau ac Asesu Arwyddocâd

| **Rhestrwch y casgliadau neu'r gwrthrychau sydd dan ystyriaeth yma a rhowch sgorau cyfartalog perthnasol o'r Daflen Waith Gwrthrychau Sampl i bob casgliad neu nodi'r sgôr yn syth os mai ag un eitem rydych chi'n delio.** | **Perthnasedd** | **Dogfennaeth** | **Gwirio Lleoliad** | **Storio'n Gywir** | **Amgylchedd** | **Goblygiadau o ran Adnoddau** | **Anawsterau Trin a Thrafod** | **Anghenion o ran gweithle** | **Cymorth Allanol** | **CYFANSWM Y SGÔR ar gyfer pob casgliad / gwrthrych** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | dim=1<br>hanesyddol=2<br>cyfredol=3 | dim=1<br>rhestr (inventory)=2<br>llawn=3 | methu=1<br>pasio=3 | gwael=1<br>hygyrch=2<br>da=3 | gwael=1<br>digon da=2<br>da=3 | uchel=1<br>canolig=2<br>isel=3 | anodd=1<br>gweddol=2<br>hawdd=3 | sylweddol=1<br>gweddol=2<br>ychydig=3 | asesiad arbenigol=1<br>adolygiad gan gymheiriaid=2<br>asesiad mewnol=3 | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |

**Nodiadau**

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | Mae hyn yn cyfeirio at berthnasedd i bolisi caffael presennol yr amgueddfa; polisi blaenorol; neu a yw'n amherthnasol hyd y gwyddom? |
| Dogfennaeth | Gwiriwch sampl gynrychioliadol i asesu ansawdd y ddogfennaeth |
| Gwirio Lleoliad | Rhowch gynnig ar ddefnyddio'ch system ddogfennu i sicrhau y gallwch ddod o hyd i wrthrychau yn y casgliad |
| Storio'n Gywir | Aseswch pa mor hygyrch yw'r storfa a'r eitemau yn y storfa |
| Amgylchedd | A ydi hi'n anodd gweithio ar y casgliad?; a yw'n cael ei gadw o dan amodau gwael?; a fyddai angen PPE penodol? |
| Goblygiadau o ran Adnoddau | A fyddai angen nifer fawr o bobl i adolygu'r casgliad hwn?; neu a fyddai anawsterau ariannu penodol? |
| Anawsterau Trin a Thrafod | A ydi'r eitemau'n swmpus neu'n drwm?; a oes angen technegau arbennig i'w trin a'u trafod? |
| Anghenion o ran Gweithle | A oes angen i chi weithio mewn amgylchedd penodol?; faint o le y mae ei angen i asesu eitemau yn y casgliad? |
| Cymorth Allanol | Allwch chi gynnal adolygiad ansoddol o fewn y sefydliad neu a oes angen cymorth allanol arnoch? |

Rhan o ddiben y cam hwn yw sicrhau eich bod yn hollol ymwybodol o unrhyw rwystrau a allai'ch atal rhag creu Datganiad o Arwyddocâd neu rywbeth arall. Efallai y byddai'n haws gweithio ar y rhai sydd â'r sgorau uchaf gyntaf.

**Os ydych yn asesu un eitem yn hytrach na chasgliad, gallwch nodi'r canlyniad yn syth ar y Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth.**

# CAM 2

# Adolygu Casgliadau

## Sicrhau y bydd eich systemau a’ch data yn eich helpu

### Yn y Cam hwn, byddwch yn:

**Paratoi’ch casgliadau**
A fydd eich systemau rheoli casgliadau yn caniatáu i chi fwrw ymlaen ag asesiad o arwyddocâd?
A oes gennych ddigon o wybodaeth am y casgliadau i roi’r manylion angenrheidiol?

**Cynnal Adolygiad o Gasgliadau**

Ewch ati i ganfod a oes anawsterau â’ch systemau dogfennu. A oes rhwystrau a fydd yn eich atal rhag cwblhau asesiad o arwyddocâd?

**Canfod a chywiro problemau penodol o ran rheoli’r casgliadau**

Mae angen i chi sicrhau bod gennych wybodaeth lawn a chywir am y casgliadau

### Paratoi’ch casgliadau

Cyn mynd i’r afael â’r Asesiad o Arwyddocâd, bydd angen i chi ystyried statws y casgliad a ddewiswyd a chanfod a fydd eich systemau rheoli casgliadau yn rhoi’r manylion cywir i gefnogi’ch asesiadau. Mae Adolygu Casgliadau yn safon Spectrum ac mae angen polisi ar amgueddfeydd i egluro sut y caiff casgliadau eu hadolygu. Gellir cynnwys hyn fel rhan o’ch Polisi Datblygu Casgliadau. Mae safon Spectrum yn cyfeirio at yr angen i gynllunio’n briodol ar gyfer Adolygiad o Gasgliadau a bod yn glir ynghylch pwrpas adolygiad o’r fath. Dyma un o’r rhesymau pam y mae mor bwysig bod Cam 1 yn cael ei gynnal yn drylwyr ac yn effeithiol.

Yn yr achos hwn, prif ddiben yr adolygiad yw’r angen i bennu’r sylfaen ar gyfer asesiad o arwyddocâd. Yn y cam hwn o’r gwaith, mae’n bwysig nodi unrhyw ddiffygion yn system ddogfennu’r sefydliad, bylchau mewn gwybodaeth hanfodol, a ffactorau a fyddai’n cyfyngu ar y gwaith o ymdrin ag asesiadau o arwyddocâd yn y dyfodol. Bydd yr Adolygiad o Gasgliadau’n gwneud hyn, os caiff ei gynnal yn gywir.

Mae nifer o weithiau’n ymwneud ag Adolygu Casgliadau wedi’u cyhoeddi a sawl enghraifft o fatricsau defnyddiol y gellir eu defnyddio neu eu haddasu at eich anghenion a’ch dibenion chi. Mae’r cam cychwynnol yn Reviewing Significance gan Caroline Reed (Reviewing Significance 3.0) yn enghraifft dda o ddull cynhwysfawr o gynnal adolygiad o gasgliadau ac mae’n ymgorffori llawer o’r elfennau sy’n angenrheidiol cyn datblygu asesiad o arwyddocâd. Yn ogystal, gallech ystyried y dull a fabwysiadwyd ym mhroses adolygu casgliadau’r UCL (UCL Collections Review Toolkit). Cofiwch fod y canllawiau hyn yn cael eu teilwra weithiau i gyd-fynd â’r amgylchiadau a gallai fod angen i chi addasu’r dull a argymhellir i fod yn addas ar gyfer eich amgueddfa neu’ch casgliad chi.

## Matrics sylfaenol Adolygu Casgliadau

Gellir defnyddio'r fersiwn sylfaenol o'r **Matrics Adolygu Casgliadau** a welir isod yn sylfaen i'ch gwaith. Datblygwyd y matrics hwn i helpu gydag adolygiadau mewn amgueddfeydd bach ac efallai nad yw'n ddigon manwl ar gyfer casgliadau mawr neu brosesau cymhleth. Serch hynny, gan gofio'r ystyriaethau hyn, gallai'r rhestr gyfeirio fod yn ddull defnyddiol o gasglu'r data gofynnol fel y gallwch symud ymlaen i'r Asesiad o Arwyddocâd yng Ngham 3.

Sylwch: Cyflwynir y **Matrics Adolygu Casgliadau** hwn ar ffurf rhestr gyfeirio â sgorau (ffeil Excel) ond efallai y byddai'n well gennych ddull mwy ansoddol. Mae fersiwn Excel o'r **Matrics Adolygu Casgliadau** i'w gweld ar wefannau Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Casgliadau ac mae fersiwn Word wag i'w gweld isod. Gellir defnyddio'r rhain ar gyfer sgorio neu ddadansoddiad ansoddol. Gall sgorio fod yn ddefnyddiol ond gall fod yn rhwystr os dibynnir ormod ar fesurau mympwyol. Ewch ati gyda doethineb i ddefnyddio ac addasu'r system sgorio er mwyn cyflawni'ch amcanion.

**Sylwch: Er bod y Matrics Adolygu Casgliadau yn gofyn am asesiad bras o arwyddocâd, dylech osgoi gwneud penderfyniadau terfynol ar werth gwrthrych nes eich bod wedi cwblhau'r Cynllun Gweithredu priodol (gweler Cam 3 am ragor o fanylion ar bob un o'r Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Asesu Arwyddocâd).**

Ar ôl cwblhau'r **Matrics Adolygu Casgliadau,** os gwelir problemau o ran dogfennaeth, storio neu rywbeth arall, efallai yr hoffech ystyried y pwyntiau isod:

- Beth sy'n achosi'r anhawster, ac a ellir ei datrys?
  Er enghraifft, ai'r angen i chi resymoli'ch casgliadau sy'n achosi'r problemau o ran rheoli'ch casgliadau neu a fyddai ad-drefnu'r storfa a diweddaru cofnodion y gwrthrychau'n helpu?
- Gofalwch eich bod yn deall beth y gellir ei gyflawni â'ch dogfennaeth gyfredol.
  A fydd eich cofnodion yn cyfyngu ar yr hyn y gallwch ei gyflawni? A fyddwch chi'n gallu sicrhau'r wybodaeth angenrheidiol i gynnal asesiad o arwyddocâd?
- Os oes unrhyw fannau storio yn anniogel neu'n anodd mynd iddynt, a ellir goresgyn y rhwystrau hynny'n gymharol hawdd? Er enghraifft, a oes modd clirio lle er mwyn mynd a dod yn ddiogel?
  A fyddai'r storfa'n lle diogel a chyfforddus i weithio ynddo pe bai'n cael ei glanhau'n drwyadl?
  Os oes problemau â'r adeiladwaith neu lwydni, mae'n debygol y bydd angen rhagor o adnoddau arnoch i ddatrys y broblem.

## Peidiwch â rhuthro trwy'r cam hwn – mae'n hollbwysig!

Peidiwch â symud ymlaen i Gam 3 nes eich bod yn ffyddiog bod eich casgliad a'ch data mewn cyflwr a fydd yn helpu'r broses Asesu Arwyddocâd yn hytrach na'i rhwystro.
Os symudwch ymlaen i Gam 3 heb ddatrys problemau Cam 2, bydd yn golygu mwy o ymdrech ac, o bosibl, wastraffu adnoddau wrth i chi orfod mynd yn ôl i Gam 2 (Adolygu Casgliadau) i ddatrys y problemau.

Os oes angen, ailystyriwch eich cynlluniau yng Ngham 1 a'u haddasu gan nodi set fwy realistig o ddeilliannau wedi'u seilio ar ddata cadarn sydd ar gael am y casgliadau. Os gwnewch hyn, ewch yn ôl i Gam 2, ac yna ymlaen i Gam 3.

**Ar ôl i chi gwblhau Cam 2, dylech fod yn gallu ateb y cwestiynau isod:**

- A oes unrhyw anawsterau o ran dogfennaeth y casgliadau, hygyrchedd neu adnoddau a allai’ch atal rhag cynnal asesiad?
- A oes modd datrys unrhyw anawsterau a nodwyd fel y gallwch symud ymlaen i Gam 3?

## Matrics Adolygu Casgliadau

**Dewiswch hyd at 15 eitem ar hap o’r casgliad o’ch dewis er mwyn sicrhau bod data cywir a digonol ar gael ar gyfer symud ymlaen i wneud Asesiad o Arwyddocâd yng Ngham 3**

| **Eitem** Rhif derbynodi neu enw syml) | **Enw’r Gwrthrych wedi’i Gofnodi** dim yn bresennol=1 presennol=3 | **Rhif Derbynodi** dim yn bresennol=1 presennol=3 | **Ffurflen Dderbyn / Ffurflen Deitl** dim yn bresennol=1 presennol=3 | **Marc / Label** Na=1 Un=2 Y ddau=3 | **Ffeiliau Derbynodi** Dim=1 Sylfaenol=2 Da=3 | **Cronfa Ddata** Dim yn bresennol=1 Rhestr (Inventory)=2 Da=3 | **Gwirio Lleoliad** Dim=1 Cywir=3 | **Storio’n Gywir** Gwael=1 Digon da=2 Da=3 | **Amgylchedd** Gwael=1 Digon da=2 Da=3 | **Y defnydd a wnaed o’r eitem** Dim defnydd blaenorol=1 Achlysurol=2 Aml=3 | **Perthnasedd** Dim=1 Amheus=2 Da=3 | **Arwyddocâd Canfyddedig (Perceived Significance)** Dim=1 Posib=2 Pendant=3 | **SGÔR** Ar gyfer pob eitem. *Gweler Nodyn 1* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** Ar gyfer pob categori | | | | | | | | | | | | **CYFANSWM SGORAU’R SAMPLAU** | |
| **SGÔR GYMEDRIG Y CATEGORI** (Cyfanswm wedi’i rannu â Nifer yr Eitemau) | | | | | | | | | | | | **SGÔR GYFARTALOG Y SAMPLAU** Gweler Nodyn 2 | |

**Os yw Sgôr Gymedrig Categori unigol o dan 1.5, mae’n fwy na thebyg bod angen sylw ar y categori hwnnw**

**Os yw Sgôr Gyfartalog y Samplau ar gyfer y casgliad hwn o dan 14, gall olygu bod angen rhagor o sylw ar y casgliad cyn cael ei ystyried ar gyfer ei asesu**

Nodyn 1: Adiwch sgorau pob categori (ym mhob rhes) heblaw’r sgôr am ‘Arwyddocâd Canfyddedig’.
Nodyn 2: Rhannwch Gyfanswm Sgorau’r Samplau (cyfanswm y golofn) â nifer yr eitemau a restrwyd.

**Nodiadau**

| | |
|---|---|
| Enw'r Gwrthrych wedi'i Gofnodi | A ydi'r eitem wedi'i hadnabod yn iawn ac ydi'r enw cywir ar gael? |
| Rhif Derbynodi | A oes gan y gwrthrych rif derbynodi unigryw y gellir ei adnabod? |
| Ffurflen Dderbyn (Entry Form) neu Ffurflen Deitl | Rhowch sgôr o 3 os yw'n cynnwys manylion y rhoddwr a llofnod trosglwyddo i brofi perchnogaeth; fel arall rhowch sgôr o 1. |
| Marc / Label | Rhowch sgôr o 2 os oes naill ai label neu farc a sgôr o 3 os yw'r ddau'n bresennol. |
| Ffeiliau Derbynodi | Os mai dim ond y Gofrestr Dderbynodi a'r Ffurflen Dderbyn sydd gennych, rhowch sgôr o 2; os oes ffeiliau hanes/ gohebiaeth yn cadarnhau perchnogaeth, rhowch sgôr o 3. |
| Cronfa Ddata | Gallai hyn fod yn system feddalwedd neu'n fynegai gardiau ar gyfer dogfennu. Yn ddelfrydol byddai'n rhoi gwybodaeth gysylltiedig gywir. |
| Gwirio Lleoliad | A allwch chi ddefnyddio'r ddogfennaeth i ganfod eitem yn y man storio, a defnyddio'r wybodaeth sydd gyda'r eitem i ganfod y ddogfennaeth? |
| Storio'n Gywir | Gallai hyn gyfeirio at y dull cywir o arddangos yr eitem, neu gyflwr y man storio presennol. |
| Amgylchedd | Gwiriwch lefelau lleithder cymharol (RH) a golau/ golau uwchfioled (UV) yn benodol, ond gall pethau eraill sy'n achosi dirywiad, fel plâu pryfetach, fod yn achos pryder. |
| Y defnydd a wnaed o'r eitem | Gallai hyn gynnwys arddangos yr eitem neu berthnasedd i waith ymchwil neu addysg. |
| Perthnasedd | Perthnasedd yr eitem i'ch strategaeth gaffael/ polisi caffael presennol. |
| Arwyddocâd Canfyddedig (Perceived Significance) | Asesiad mympwyol yn unig. (Ni chaiff ei gynnwys yn y sgorau terfynol ond gellid ei ddefnyddio'n nes ymlaen i wirio'ch dealltwriaeth bersonol chi o bob gwrthrych yn erbyn canlyniadau'r asesiad terfynol o arwyddocâd). |

Mae'r Matrics Adolygu Casgliadau yn ffordd o brofi yng Ngham 2 pa mor gyflawn yw peth o'r data sylfaenol ar gyfer y casgliad o'ch dewis. Efallai yr hoffech greu eich matrics eich hunain neu addasu rhai elfennau er mwyn cyd-fynd yn well â'r casgliad o'ch dewis. Diben yr ymarferiad hwn yw ceisio canfod bylchau mewn data hanfodol a fyddai, fel arall, yn amharu ar eich ymdrechion i asesu arwyddocâd yng Ngham 3. Sylwch: Nid yw 'Arwyddocâd Canfyddedig' yn elfen hanfodol yng Ngham 2 – caiff y gwir arwyddocâd ei asesu yng Ngham 3.

# CAM 3

# Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Asesu Arwyddocâd

## Yn y Cam hwn, byddwch yn:

**Datblygu'ch Asesiadau o Arwyddocâd ar gyfer y casgliad(au) o'ch dewis**

Defnyddiwch y gwaith a wnaed a'r wybodaeth a gasglwyd yng Nghamau 1 a 2 i flaenoriaethu'r anghenion allweddol ar gyfer asesu arwyddocâd – bydd hyn yn eich helpu i ddewis y Cynllun Gweithredu priodol ar gyfer Asesu Arwyddocâd.

- Cynllun Gweithredu Diffinio Statws
- Cynllun Gweithredu Rhesymoli
- Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Caffaeliadau
- Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Arddangosfa
- Neu Gynllun Gweithredu wedi'i gynllunio gennych chi.

**Sicr o'ch Cynnyrch a'ch Deilliannau**

Rhestrwch gynnyrch a deilliannau (outputs and outcomes) eich Cynllun Gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r hyn y gobeithiwch ei gyflawni wrth gwblhau'r Asesiad o Arwyddocâd.

## Dewis y Cynllun Gweithredu priodol ar gyfer Asesu Arwyddocâd

Rydych wedi gweithio trwy Gam 1 er mwyn deall cyd-destun eich prosiect, nodau'r asesiad, pa gasgliad rydych am ganolbwyntio arno trwy weithio trwy'r Daflen Waith Gwrthrychau Sampl a'r Daflen Waith Casgliadau dan Ystyriaeth, a beth y mae angen i chi ei wneud i baratoi ar gyfer yr Adolygiad o Gasgliadau. Rydych wedi cwblhau Adolygiad o Gasgliadau yng Ngham 2 i roi prawf ar eich systemau rheoli casgliadau ac, yn awr, rydych yn hyderus bod y wybodaeth am y casgliadau mewn cyflwr digon da fel y gallwch symud ymlaen i Gam 3 - yr Asesiad o Arwyddocâd. Daeth yn bryd dewis y Cynllun Gweithredu Asesu Arwyddocâd y byddwch yn ei ddefnyddio i asesu'r casgliad o'ch dewis a dechrau arni.

Defnyddiwch y gwaith a wnaed a'r wybodaeth a gasglwyd yng Nghamau 1 a 2 i flaenoriaethu'r anghenion allweddol o ran asesu arwyddocâd. Os ydych wedi gweithio'n drefnus drwy Gamau 1 a 2 bydd gennych ddealltwriaeth glir iawn o'r anghenion hyn ac fe allwch symud ymlaen at un neu fwy o'r Cynlluniau Gweithredu a nodir yma yng Ngham 3.

Bydd gan bob amgueddfa ei blaenoriaethau a'i gofynion ei hunan ac ni fydd yr un ddogfen ganllawiau'n gallu darparu ar gyfer pob un o'r rhain. Efallai y bydd eich prosiect yn cynnwys manion nad ydynt yn ffitio'n hawdd i'r Cynlluniau Gweithredu enghreifftiol a awgrymir yma. Datblygwyd y rhain i geisio cyfateb i'r senarios mwyaf cyffredin. Fel sy'n wir am elfennau eraill o'r canllaw hwn, mae croeso i chi addasu Cynlluniau Gweithredu a datblygu'ch rhai chi'ch hun i gyd-fynd ag anghenion penodol eich sefydliad gan ddefnyddio'r egwyddorion a'r enghreifftiau isod i arwain eich gwaith.

O gofio hyn, mae Cam 3 yn nodi pedwar Cynllun Gweithredu posibl y gallech eu defnyddio neu eu haddasu i gynnal Asesiad o Arwyddocâd. Dewiswch y Cynllun Gweithredu sy'n diwallu anghenion eich sefydliad orau. Trefnwyd pob Cynllun Gweithredu i'ch helpu i gynnal asesiadau gan anelu at nodau penodol. Mae'r tabl isod yn dangos beth y bydd pob Cynllun Gweithredu'n eich helpu i'w wneud.

| Y Math o Gynllun Gweithredu | Beth y bydd y Cynllun Gweithredu'n eich helpu chi i'w wneud |
|---|---|
| ***Cynllun Gweithredu Diffinio Statws*** | Bydd hwn yn eich galluogi i ganfod casgliadau neu wrthrychau arwyddocaol yn eich casgliad sy'n eiconig neu sydd ag arwyddocâd a gwerth arbennig i'ch cymunedau lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol. Bydd yn diffinio pa gasgliadau sydd fwyaf cynrychioliadol o ddiben, gweledigaeth a chenhadaeth eich sefydliad. Wrth nodi statws eich casgliad, neu rannau allweddol o'r casgliad, byddwch yn gallu cyfleu beth yw gwerth eich gwaith i gymdeithas. Bydd yn eich helpu hefyd i gadarnhau wrth sefydliadau allanol bod eich casgliadau'n bodloni'ch amcanion chi a'ch cyfrifoldebau i'r gymuned, sut bynnag y diffinnir y gymuned honno. |
| ***Cynllun Gweithredu Rhesymoli*** | Er mwyn rheoli'ch casgliadau mewn ffordd gadarn, gall fod gofyn i chi bennu gwrthrychau neu grwpiau o wrthrychau nad oes iddynt arwyddocâd i ddiben, gweledigaeth na chenhadaeth y sefydliad. Er enghraifft, weithiau, os na wyddom lawer os unrhyw beth am darddiad gwrthrychau ac na wyddom beth yw eu harwyddocâd, ni fyddant o werth i'r amgueddfa na'r gymuned y mae'n ei chynrychioli. Mae rhesymoli'n broses o ganfod faint o arwyddocâd sydd i elfennau o'ch casgliadau a blaenoriaethu beth i'w wneud â nhw yn y dyfodol. Dim ond trwy resymoli yn y ffordd gywir y gallwch asesu'n iawn beth yw'r anghenion o ran storio, cynlluniau arddangos, neu strategaethau gwaredu. |
| ***Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Caffaeliadau*** | Yr allwedd i gadw casgliad yn fywiog a pherthnasol yw sicrhau bod pob caffaeliad newydd yn arwyddocaol i ddiben yr amgueddfa, boed hynny ar gyfer arddangos, ymchwil neu amcanion allweddol eraill gan y sefydliad. Hyd yn oed os bydd diben yr amgueddfa'n newid, bydd cadw cofnod llawn o gaffaeliadau'n helpu pobl i ddeall yn y dyfodol pam y casglwyd gwrthrychau penodol. Trwy ganfod arwyddocâd eitemau sydd newydd ddod i law, gallwch sicrhau bod eich casgliadau'n cyfateb i weledigaeth a diben eich sefydliad a'u bod o werth i'ch cymunedau. Bydd hyn yn ffordd o liniaru problemau posibl o ran adnoddau yn y dyfodol. |
| ***Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Arddangosfa*** | Os dewisir yn ofalus pa eitemau i'w rhoi mewn arddangosfa, gall gwaith dehongli priodol wneud y pwnc yn fwy hygyrch. Weithiau mae arwyddocâd gwrthrych neu gasgliad yn amlwg ond, yn aml, yr allwedd i ddewis y gwrthrych cywir ar gyfer arddangosfa yw gwerth y wybodaeth gysylltiedig. Bydd y Cynllun Gweithredu hwn yn eich helpu i ganfod eitemau sydd ag arwyddocâd i'r pwnc, y gynulleidfa a chenhadaeth yr amgueddfa. |

Wrth ddewis pa Gynllun Gweithredu i'w ddefnyddio, bydd yn bwysig cofio beth sy'n ymarferol ac yn gyraeddadwy gyda'r adnoddau sydd ar gael i'ch sefydliad. Bryd hynny, byddai'n dda ailymweld â'r adnoddau a ddyrannwyd yn ystod cyfnod cynllunio'r prosiect, Cam 1, i sicrhau eu bod yn dal i ddiwallu anghenion yr asesiad, ac i drefnu unrhyw gefnogaeth a hyfforddiant angenrheidiol i'r staff a'r gwirfoddolwyr a fydd yn gwneud y gwaith. Bydd y broses hon yn eich helpu i ganfod unrhyw risgiau a phroblemau posibl ar y prosiect a mynd i'r afael â nhw. Cofiwch, gallwch addasu un o'r pedwar Cynllun Gweithredu mewn ffordd sy'n cyfateb i flaenoriaethau, adnoddau a chapasiti eich sefydliad / tîm y prosiect.

## Cynnyrch a deilliannau

Ar ôl i chi ddewis pa Gynllun Gweithredu i'w ddefnyddio, gall fod yn fuddiol i chi nodi cynnyrch a deilliannau (outputs and outcomes) eich Cynllun Gweithredu i sicrhau eu bod yn cyfateb i'r hyn rydych yn gobeithio'i gyflawni wrth gwblhau'r asesiad. Gall tabl fel yr un isod helpu i roi trefn ar eich meddyliau a rhoi rhywbeth i gyfeirio ato wrth i chi symud ymlaen â'ch Asesiad o Arwyddocâd. Yn y tabl isod, rhoddir rhai enghreifftiau damcaniaethol o'r mathau o gynnyrch a deilliannau y gallech eu nodi.

| **Cynnyrch**<br><br>*Canlyniadau diriaethol / mesuradwy yr Asesiad o Arwyddocâd* | **Deilliannau**<br><br>*Canlyniadau anniriaethol / ansoddol yr Asesiad o Arwyddocâd* |
|---|---|
| Caiff X (nifer) o wrthrychau o gasgliad y gwaith dur eu hasesu | Gofynnir i aelodau o gymuned sydd â phrofiad perthnasol o fywyd i gyfrannu at yr Asesiad o Arwyddocâd, yn cynnwys pobl o'r tu allan i Gymru sydd wedi teithio i weithio yn y diwydiant dur. |
| Caiff X (nifer) o gofnodion y gronfa ddata yn ymwneud â chasgliad y gwaith dur eu diweddaru o ganlyniad i'r Asesiad o Arwyddocâd | Bydd cymunedau cysylltiedig yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn y broses ac fe gânt eu hannog i ymwneud mwy â'r amgueddfa |
| Ysgrifennir Datganiad o Arwyddocâd ar gyfer casgliad y gwaith dur | Bydd gennym well dealltwriaeth o'r eitemau sydd gennym yng nghasgliad y gwaith dur |

## Y Cynlluniau Gweithredu

I gyd-fynd â phob Cynllun Gweithredu mae Taflen Sbarduno, a fydd yn rhoi fframwaith ar gyfer eich trafodaeth ar Asesu Arwyddocâd. Mae gan bob Cynllun Gweithredu isod ei Daflen Sbarduno ei hun, y gallwch ei defnyddio i gofnodi gwybodaeth wrth i chi weithio drwy'r casgliad a ddewiswyd i'w asesu. Y syniad yw eich bod yn trafod arwyddocâd pob gwrthrych yn erbyn y meini prawf asesu yn hytrach na defnyddio system sgorio. Efallai yr hoffech addasu'r Taflenni Sbarduno hyn, er enghraifft trwy ychwanegu'ch meini prawf eich hun, i ddiwallu anghenion eich prosiect. Nid yw sgorio'n hwyluso'r drafodaeth fanylach sy'n angenrheidiol er mwyn archwilio arwyddocâd casgliadau amgueddfeydd yn drwyadl, felly mae angen mynd ati mewn ffordd wahanol i'r hyn a wnaethoch yng Nghamau 1 a 2 i benderfynu ar gasgliadau a'u hadolygu. Mae'r dulliau a ddefnyddir yn y Ffindir (Analysing Significance 3 - ICOM Finland) a'r Iseldiroedd (Assessing Museum Collections - Collections valuation in six steps, Cultural Heritage Agency of the Netherlands) yn enghreifftiau da o'r ffordd y gellir defnyddio dull ansoddol i wneud asesiad llawnach a mwy cynhwysfawr o arwyddocâd casgliadau. Awgrymwn eich bod yn treulio peth amser yn dysgu am ddulliau sectorau'r Ffindir a'r Iseldiroedd o asesu arwyddocâd cyn cychwyn ar eich trafodaethau chi.

# Cynllun Gweithredu Diffinio Statws

Gallwch ddefnyddio'r Cynllun Gweithredu hwn i ddiffinio arwyddocâd mewn sawl ffordd wahanol a'i deilwra i'r math o arwyddocâd yr ydych chi'n bwriadu ei archwilio. Efallai mai arwyddocâd lleol a chymunedol ydyw, sut mae'r casgliad yn helpu i adrodd stori Cymru a'i phobl, neu efallai mai'r bwriad yw cadarnhau eich cred fod gwrthrychau yn y casgliad o bwysigrwydd rhyngwladol.

Bydd y **Cynllun Gweithredu Diffinio Statws** yn eich helpu i ateb un neu fwy o'r cwestiynau isod:

**A ydi'r casgliad yn cyfateb yn agos i ddiben, gweledigaeth a chenhadaeth eich sefydliad?**

**A ydyw'n gasgliad arwyddocaol o ran treftadaeth eich ardal chi a chymunedau lleol?**

**A fyddai modd defnyddio'r gwrthrych neu'r grŵp o wrthrychau i adrodd stori Cymru a'i phobl, neu tybed a oes iddo arwyddocâd rhyngwladol?**

**Beth y bydd y Cynllun Gweithredu Diffinio Statws yn eich helpu i'w wneud**

**Adnabod casgliadau neu wrthrychau disglair sy'n cynrychioli diben eich sefydliad yn dda ac sy'n eithriadol o berthnasol a gwerthfawr i'ch cymuned(au) lleol.**

**Os credwch fod gennych gasgliadau a allai fod o arwyddocâd i Gymru neu'n rhyngwladol, gall eich helpu i weld pa mor gryf yw'r honiad hwnnw.**

**Adnabod casgliadau neu wrthrychau arbennig neu ddisglair, sydd fel pe baent naill ai'n ychwanegu gwerth at hanes Cymru a'i chymunedau a/neu sydd o bwysigrwydd rhyngwladol.**

**Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd a chyfraniadau arbenigwyr pwnc i fod yn dystiolaeth o arwyddocâd cenedlaethol a/neu ryngwladol y gwrthrychau hyn.**

Gall casgliadau fod yn arwyddocaol i'ch cymunedau lleol. Ar yr un pryd, gallai'r gwrthrychau hynny chwarae rhan ehangach wrth adrodd stori Cymru a'i phobl, neu gallai fod iddynt bwysigrwydd rhyngwladol. Mae canfod arwyddocâd casgliad i gymuned benodol yn rhywbeth y gall y rhan fwyaf o amgueddfeydd ei wneud trwy archwilio gwybodaeth gysylltiedig am y casgliad a thrwy ymgynghori â'r gymuned berthnasol. Gall fod yn anos ceisio canfod arwyddocâd ehangach a bydd angen mynd ati'n ofalus a gweithio ar sail gwybodaeth gadarn. Er mwyn gwybod a oes arwyddocâd ehangach i wrthrych neu grŵp o wrthrychau, y cwestiwn allweddol i'w ofyn yw hyn: a fyddai colli'r gwrthrych neu'r gwrthrychau yn amharu ar ein gallu i adrodd stori Cymru a'i phobl, neu a fyddai'n golled i'r holl bobl (fel y'u diffinnir yng Nghonfensiwn yr Hag)?

Bydd llawer yn teimlo bod y rhan fwyaf o gasgliadau cymunedol yn amgueddfeydd Cymru yn rhan o hanes Cymru, ond rhaid i ni fod yn ofalus i sicrhau bod y diffiniadau a ddefnyddir wrth bennu arwyddocâd cenedlaethol yn rhai cyson, y cytunwyd arnynt ymlaen llaw, ac nad ydynt yn gor-ddweud pwysigrwydd casgliadau'r amgueddfa yn gyffredinol. Os honnir bod pob casgliad sy'n ymwneud â hanes Cymru yn yr amgueddfa yn hanfodol er mwyn adrodd stori'r genedl, gallai hynny ddibrisio diben cymunedol yr amgueddfa. Rhaid dweud hefyd nad yw casgliadau sydd â gwrthrychau o arwyddocâd cymunedol yn llai gwerthfawr, o safbwynt diwylliannol na hanesyddol, na chasgliadau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol. Mae diben cymunedol cryf yn rhywbeth i'w ddathlu. Fodd bynnag, rhaid inni ystyried yn ofalus wrth benderfynu pa wrthrychau i'w diffinio fel rhai sydd o arwyddocâd cenedlaethol neu ryngwladol.

Wrth archwilio arwyddocâd cymunedol, lleol neu arwyddocâd ehangach, rhaid i unrhyw ymchwil a wneir i'r gwrthrychau a asesir ac a gofnodir mewn Datganiad o Arwyddocâd gael ei hategu gan gyfraniad arbenigwr yn y maes neu erthyglau cyhoeddedig. Bydd hyn yn sicrhau bod modd dilysu'r Datganiad o Arwyddocâd a wneir i gofnodi statws y casgliad.

## Astudiaeth achos

### Casgliad Band Cyfarthfa, Castell Cyfarthfa

Bu tîm yr amgueddfa'n gweithio trwy Gamau 1 a 2 o'r pecyn cymorth er mwyn deall pa adnoddau fyddai'n angenrheidiol a dewis pa ran o'r casgliad fyddai fwyaf addas ar gyfer gwaith arwyddocâd. Roedd Camau 1 a 2 yn amlygu pwysigrwydd dewis casgliad sy'n hawdd cael mynediad ato ac ystyried y man lle gellid gweithio ar y casgliad. Nodwyd bod casgliad Band Cyfarthfa yn ddewis da gan ei bod yn hawdd mynd ato (yn yr arddangosfa ac yn y storfeydd), bod ynddo rai darnau diddorol a phrin, bod ganddo gysylltiad cymunedol cryf a'i fod wedi'i ddefnyddio ar gyfer ymchwil yn cynnwys gwaith gan y Coleg Cerdd Brenhinol. Erbyn hyn, mae'r tîm yn gweithio ar Ddatganiad o Arwyddocâd gan ddefnyddio cwestiynau sbarduno'r Cynllun Gweithredu Diffinio Statws.

## Beth y bydd angen i chi ei wneud:

1. Archwilio'r wybodaeth sydd gennych eisoes am y gwrthrychau yn y casgliad sydd i'w adolygu.
   - Ffurflen dderbyn gyda'r wybodaeth a nodwyd pan ddaeth y gwrthrych(au) i ofal yr amgueddfa
   - Ffeil hanes gyda dogfennau, ffotograffau a lluniadau cysylltiedig ac unrhyw ymchwil flaenorol a wnaed i'r gwrthrych(au)
   - Cofnodion o'r gwrthrych(au) – cofnodion o gronfa ddata a/neu gardiau mynegai a chofnodion o'r gofrestr dderbynodi
   - Deunydd archifol a ffotograffau i roi rhagor o ddyfnder i'r hyn a wyddom am y gwrthrychau – gall yr eitemau hyn roi gwybodaeth am y sawl oedd yn berchen ar y gwrthrychau, ble cawsant eu prynu ac oddi wrth bwy, sut y cawsant eu gwneud a sut y cawsant eu defnyddio.
2. Cynnal rhagor o ymchwil hanesyddol / ymchwil desg i'r gwrthrychau er mwyn cael dealltwriaeth dda ohonynt, a'u harwyddocâd posibl.

   **Sylwch: Os byddwch yn asesu arwyddocâd Cymreig neu ryngwladol posibl, ystyriwch yn ofalus pa fath o ymchwil y mae angen i chi ei gwneud i helpu i benderfynu pa mor bwysig yw'ch casgliad. Er enghraifft, edrychwch ar gasgliadau tebyg sydd gan amgueddfeydd eraill a darllenwch erthyglau perthnasol a gyhoeddwyd ar y pwnc ac am gasgliadau eraill tebyg.**
3. Canfod cymunedau sy'n gysylltiedig â'r casgliad sydd i'w adolygu ac ymchwilio i'r ffordd orau o gysylltu â nhw. Er enghraifft, efallai yr hoffech holi gweithwyr/cynweithwyr dur er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r offer a'r cyfarpar sydd gennych o'r diwydiant dur. Os ydych yn ystyried arwyddocâd rhyngwladol, efallai yr hoffech gysylltu â chymunedau o bobl sydd wedi symud i Gymru o lefydd eraill ac sydd â chysylltiad â gwrthrychau penodol neu gasgliadau unigol er mwyn deall pa mor agos y mae'r gwrthrychau hynny'n perthyn i'w straeon personol.
4. Holi'r cymunedau perthnasol i ddeall yn well pa mor berthnasol yw'r casgliadau i'w profiad nhw. Bydd hyn yn gwella dealltwriaeth eich sefydliad o'r gwrthrychau, a gallwch ddefnyddio'r wybodaeth i gyfrannu at eich Asesiad o Arwyddocâd a gwella'ch dogfennaeth.
5. Ar ôl casglu'r wybodaeth y mae arnoch ei hangen i baratoi achos dros arwyddocâd y casgliad, gallwch gyflwyno'ch canfyddiadau i arbenigwyr pwnc a chydweithwyr yn y sector amgueddfeydd i'w hadolygu gan gymheiriaid. Efallai yr ystyriwch ofyn am farn Rhwydwaith Arbenigwyr Pwnc (SSN) perthnasol (mae manylion yr SSNs sydd ar gael ar wefan y Subject Specialist Network Consortium), cydweithiwr yn y sector amgueddfeydd sy'n arbenigo mewn pwnc perthnasol neu academydd sydd wedi ymchwilio i bwnc perthnasol.

   **Sylwch: Os yw'ch prosiect yn archwilio arwyddocâd Cymreig neu ryngwladol, y gwaith a wneir fel rhan o'ch Cynllun Gweithredu Diffinio Statws fydd y sylfaen ar gyfer cyflwyno achos dros arwyddocâd cenedlaethol neu ryngwladol yn y dyfodol. Byddwch yn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn a cheisio barn a chadarnhad arbenigol os dymunwch gyflwyno'r casgliad i'w ystyried fel rhan o Gasgliad Cenedlaethol sydd ar Wasgar neu Gynllun Cydnabod Casgliadau os caiff cynllun o'r fath ei sefydlu yng Nghymru.**

## Astudiaeth achos

### Casgliad Hedd Wyn, Yr Ysgwrn, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mae tîm Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o werth y casgliadau unigol sy'n rhan o gasgliad cyfan Hedd Wyn a'u cyfraniad at stori Cymru a'i phobl, ynghyd ag arwyddocâd rhyngwladol posibl rhai o'r gwrthrychau. Wrth weithio drwy Gam 1, nodwyd dau gasgliad archifol fel yr enghreifftiau cryfaf i'w hasesu: llythyrau cydymdeimlad a dderbyniwyd pan fu farw Hedd Wyn a deunydd yn ymwneud ag Eisteddfod Genedlaethol 1917. Hedd Wyn oedd i fod i gael ei gadeirio yno ond roedd wedi marw cyn yr Eisteddfod a daeth y gadair i gael ei hadnabod fel y Gadair Ddu. Ar ôl Adolygu'r Casgliadau yng Ngham 2, defnyddir y Cynllun Gweithredu Diffinio Statws i helpu'r tîm i ddeall arwyddocâd y gwrthrychau hyn o ran dangos effaith marwolaeth y bardd ifanc ar bobl ledled Cymru, ynghyd â'r ffordd y daeth trychineb ei farw ef yn symbol o golli 40,000 o Gymry ifanc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Wrth gynnal y broses, canfu tîm APCE eu bod yn trafod prosiectau arwyddocâd eraill posibl, a allai gynnwys cydweithio â sefydliadau eraill sydd â deunydd yn ymwneud â Hedd Wyn, er mwyn hwyluso dealltwriaeth ehangach o arwyddocâd traws-gasgliadau ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd.

## Cynllun Gweithredu Diffinio Statws – Taflen Sbarduno

Dylid defnyddio'r asesiadau hyn i lunio Datganiad o Arwyddocâd sy'n ymwneud â statws cymunedol* neu genedlaethol. Dyma broses ansoddol sy'n gofyn am feddwl a thrafod gofalus ynghylch adolygu casgliadau neu wrthrychau penodol. Er mwyn profi statws, cofiwch ei bod yn rhaid i amgueddfa fod yn ymwybodol o unrhyw anawsterau'n ymwneud â pherchnogaeth, tarddiad neu ddogfennaeth ac felly mae'n rhaid cwblhau'r cam Adolygu Casgliadau cyn gwneud y dadansoddiad hwn.

| | |
|---|---|
| **A ydi'r Rhif Derbynodi'n bresennol ac a gadarnhawyd ei fod yn perthyn i'r gwrthrych neu'r gwrthrychau?** | Opsiynau: Dim yn bresennol, Rhannol bresennol, Wedi'i labelu, Wedi'i farcio, Mewn bocs. |
| **A ydi'r ddogfennaeth yn cadarnhau mai'r amgueddfa yw'r perchennog?** | Opsiynau: Dim dogfennaeth, Cofnod yn y gofrestr dderbynodi heb fanylion rhoddwr, Manylion y rhoddwr wedi'u nodi ond heb eu cadarnhau, Teitl cyfreithiol wedi'i gadarnhau. |
| **Beth yw cyflwr cyffredinol y gwrthrych/ casgliad?** | Opsiynau: Wedi gwaethygu y tu hwnt i waith cadwraeth priodol, Gwael ond byddai costau gwaith cadwraeth yn ormodol, Angen gwaith adfer, Sefydlog ond ddim yn ddigon da i'w arddangos, Sefydlog ac yn ddigon da i'w arddangos. |
| **A ydi'r gwrthrych/ casgliad yn cyfateb i bolisi caffael yr amgueddfa?** | Opsiynau: Dim yn berthnasol hyd y gwyddom, Perthnasol i gyfnod casglu blaenorol, Perthnasol i'r polisïau caffael cyfredol. |
| **Ydi'r gwrthrych/ casgliad wedi'i arddangos i'r cyhoedd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf?** | Opsiynau: Dim cysylltiad â'r cyhoedd, Cyflwr/ amgylchedd anaddas/ diffyg trefniadau diogelwch yn cyfyngu ar y cysylltiad â'r cyhoedd, Cael ei arddangos dros dro yn achlysurol, Cael ei arddangos yn barhaol. |
| **A ydi'r gwrthrych/ casgliad yn berthnasol i'r gymuned* mewn ffordd benodol?** | Opsiynau: Dim perthnasedd penodol i'r gymuned, Perthnasedd canfyddedig h.y. tybir ei fod yn berthnasol i'r gymuned, Profwyd ei fod yn berthnasol trwy ymgynghori a/neu adolygiad arbenigol. |
| **A ydi'r gwrthrych/ casgliad yn arbennig o berthnasol i un rhan o'r gymuned*?** | Opsiynau: Diddordeb/perthnasedd cyffredinol yn unig, Arbennig o berthnasol i un rhan o'r boblogaeth, Eitemau cynrychioliadol, arwyddocaol ym maes gwyddorau naturiol neu hanes lleol, Cynrychioliadol o faterion amgylcheddol, Cynrychioliadol o faterion cyfoes/poblogaidd am ryw gyfnod. |
| **Sut mae'r gymuned wedi ymwneud â'r gwrthrych/ casgliad?** | Opsiynau: Dim ymwneud a/neu fod yr amgueddfa'n tybio y byddai diddordeb, Ymwneud 'goddefol' trwy arddangosfeydd neu addysg, Ymwneud ymgynghorol trwy gyfarfodydd neu weithdai penodol. |
| **A wnaed ymchwil academaidd neu wyddonol i statws neu darddiad y gwrthrych/ casgliad?** | Opsiynau: Dim ymchwil neu fod yr amgueddfa'n tybio ei fod yn bwysig, Ymchwil mewnol neu ymgynghori cymunedol, Adolygu gan gymheiriaid, Gwaith wedi'i gyhoeddi, Adroddiad arbenigol. |
| **A oes gwerth cenedlaethol (Cymru) neu ryngwladol i'r eitem?** | Opsiynau: Dim perthnasedd cenedlaethol/ rhyngwladol, Perthnasedd cenedlaethol/ rhyngwladol posibl ond bod angen adolygiad arbenigol, Cadarnhawyd perthnasedd cenedlaethol/ rhyngwladol trwy adolygiad neu gyhoeddiad arbenigol. |
| *Os oes angen, ychwanegwch eich meini prawf eich hunain isod cyn dechrau asesu'ch gwrthrych(au)* | |

*Diffinnir cymuned fel y bobl a'r lleoedd sy'n gysylltiedig â chenhadaeth yr amgueddfa. Rhaid i chi ddiffinio'ch cymuned yn gywir trwy ofyn i chi'ch hunan a ydi'r amgueddfa'n darparu ar gyfer pob rhan o'r boblogaeth a phob math o amgylchedd. Er enghraifft, a ydych yn hollol ymwybodol o natur amrywiol y boblogaeth y mae'ch amgueddfa yn ei gwasanaethu? A ydi'ch polisïau casglu a/neu'ch polisïau caffael yn adlewyrchu'ch cymuned? Os nad ydynt, beth y gellir ei wneud i gywiro hynny?

## Astudiaeth achos

**Casgliadau Storiel a Phrifysgol Bangor, Cyngor Gwynedd**

Y tîm casgliadau yn Storiel, Bangor sy'n gyfrifol am reoli casgliadau amgueddfeydd Cyngor Gwynedd a rhai Prifysgol Bangor a gofalu amdanynt. Yng Ngham 1, pennwyd sawl casgliad unigol y gellid eu hystyried yn yr amgueddfeydd a'r brifysgol. Roedd yr amcanion ar gyfer eu hasesu yn amrywio, sef gwell dealltwriaeth o arwyddocâd lleol, cymunedol a Chymreig, yr angen i ddeall arwyddocâd casgliadau er mwyn llywio'r gwaith o resymoli neu, o bosib, waredu eitemau, a'r angen am benderfyniadau caffael gan fod ôl-groniad hanesyddol. Roedd y tîm yn awyddus i gynnal asesiad o arwyddocâd er mwyn deall eu casgliadau'n well, cyfrannu at y gwaith dehongli, eu helpu i ymgysylltu â'r cyhoedd, a dangos pa rannau o'r casgliad sy'n cyfrannu'n sylweddol at adrodd stori Gwynedd a'i phobl. Yng Ngham 1, nodwyd mai'r casgliad o wisgoedd Cymreig, sy'n cwmpasu Gwynedd ac ardaloedd o fewn ffiniau hanesyddol y sir, oedd yr ymgeisydd cryfaf ar gyfer cael ei asesu. Mae'r casgliad wedi'i ddogfennu'n dda, mae'n hygyrch (easily accessible) ac mae elfennau ohono eisoes wedi ymddangos mewn nifer o astudiaethau arbenigol a gyhoeddwyd, gan roi sylfaen dda ar gyfer ei adolygu gan gymheiriaid yn nes ymlaen. Treialwyd y Cynllun Gweithredu Diffinio Statws ac fe'i defnyddir gan y tîm i bennu pa ddarnau o'r gwisgoedd sydd fwyaf arwyddocaol o ran cyfrannu at ddealltwriaeth o'r wisg draddodiadol yng nghyd-destun gogledd Cymru.

## Ysgrifennu Datganiad o Arwyddocâd

Ar ôl i chi gwblhau'r camau uchod, gallwch baratoi Datganiad o Arwyddocâd ar gyfer y casgliad a aseswyd, wedi'i seilio ar ymchwil drylwyr a gwybodaeth arbenigol am y pwnc. Efallai y bydd yr enghraifft isod yn ganllaw defnyddiol wrth i chi ysgrifennu'ch Datganiad o Arwyddocâd. Dylid defnyddio'r enghraifft hon fel canllaw yn unig. Mae'n bwysig teilwra'r Datganiad o Arwyddocâd i'r casgliad dan sylw a'r math o arwyddocâd yr oeddech yn ceisio'i asesu, fel y nodwyd yng nghamau cynnar eich prosiect.

Mae'r rhestr hon yn cynnig awgrymiadau o'r hyn y gallech ystyried ei gynnwys:

- Manylion pryd y cynhaliwyd yr asesiad a gan bwy
- Disgrifiad o'r gwrthrych, y grŵp o wrthrychau neu'r casgliad sydd i'w gynnwys yn y Datganiad o Arwyddocâd – disgrifiad manwl ac asesiad o gyflwr
- Ymchwil i'r gwrthrych(au) neu'r casgliad – gwybodaeth sydd gennych am darddiad ac am y casgliadau, pobl yr ymgynghorwyd â nhw, ymchwil hanesyddol a wnaed, gan gynnwys cyfeiriadau (references)
- Y meini prawf a ddefnyddiwyd wrth asesu'r gwrthrych(au) neu'r casgliad
- Deilliannau'r asesiad
- Datganiad yn crynhoi pam y mae'r gwrthrych(au) neu'r casgliad yn arwyddocaol
- Nodi gwaith ymchwil neu ymgynghori pellach a wneir fel rhan o asesiad parhaus, ynghyd ag unrhyw nodiadau ychwanegol

## Astudiaeth Achos – Amgueddfa Ceredigion, Casgliad Tŵls Gwaith Coed

| | |
|---|---|
| **Enw'r amgueddfa** | Amgueddfa Ceredigion |
| **Enw'r asesydd** | Ymgynghorydd Treftadaeth, Headland Design |
| **Dyddiad yr asesiad** | Awst 2019 |
| **Enw'r gwrthrych / casgliad / sypyn** | Casgliad tŵls gwaith coed |
| **Rhif derbynodi'r gwrthrych neu rif dilyniant y casgliad** | Gwahanol rifau derbynodi |
| **Lleoliad presennol** | Garej Stryd y Baddon, storfa Atig Stryd y Baddon |
| **Disgrifiad byr o'r gwrthrych/casgliad** | Dros 1,300 o dŵls gwaith coed ar gyfer crefftau a busnesau amrywiol |
| **Beth a ddefnyddiwyd i'w gwneud?** | Pren, metel |
| **Maint** | Amrywiol |
| **Asesiad o gyflwr:**<br>**gwael iawn / gwael / gweddol / da** | Mae cyflwr y casgliad yn amrywio o "gwael iawn" i "da" |
| **Ffotograff neu luniad** | Dim yn berthnasol |
| **Asesiad cyfunol y matrics** | I'w gadarnhau |

**Disgrifiad manwl**

Casgliad amrywiol o dros 1,300 o eitemau unigol wedi'u casglu dros gyfnod o 40 mlynedd. Mae'n cynnwys grwpiau a gafwyd gyda'i gilydd ac eitemau unigol o ffynonellau amrywiol. Cafodd rhai ohonynt eu rhoi'n rhoddion i'r amgueddfa ac fe brynwyd eraill oddi wrth unigolion a theuluoedd ac mewn ocsiynau.

**Asesiad manwl o gyflwr**

Aseswyd cyflwr y rhan fwyaf o'r casgliad fel rhan o brosiect Hadau, pan fu tîm o staff a gwirfoddolwyr yn archwilio ac yn diweddaru cofnodion catalogio'r holl offer. Cynhaliwyd asesiad gweledol sydyn ganddynt hefyd. Amlygwyd eitemau oedd mewn cyflwr gwael ac ni chawsant eu hystyried ar gyfer eu harddangos.

**Ymchwil a chefndir**

Gwnaed ymchwil yn ystod prosiect *Hadau,* yn cynnwys nodi beth oedd y tŵls ac ymchwilio i'r gwneuthurwyr. Ni wnaed unrhyw ymchwil arall ac mae llawer o le i gael gwell dealltwriaeth o'r tŵls, y bobl oedd yn eu defnyddio a'r defnydd a wnaed ohonynt. Felly, asesiad rhagarweiniol yw hwn ac mae angen ychwanegu ato wrth i ni ddysgu mwy am y casgliad.

Mae lle i gydweithio ag Archifdy Ceredigion i roi'r offer yn eu cyd-destun hanesyddol a gallai sawl sefydliad gefnogi'r gwaith hwn, gan gynnwys y Tools & Trades History Society (TATHS).

**Adolygiad gan gymheiriaid a mewnbwn arbenigol**

Gofynnwyd i arbenigwyr allanol gyfrannu er mwyn dyfnhau ein dealltwriaeth o arwyddocâd y casgliad a sicrhau bod ein canfyddiadau'n elwa ar wybodaeth ac asesiadau o'r tu allan i'r sefydliad. Byddai hyn yn gweithredu fel adolygiad cymheiriaid. Ymgynghorwyd â'r bobl a ganlyn:

- Arbenigwyr gwaith coed allanol
- Aelodau Men's Shed Aberystwyth
- Myfyrwyr gwaith coed o'r coleg Addysg Bellach lleol

| **Cymharwch: Lleoedd ac eitemau cysylltiedig** |
|---|
| Ymhlith y casgliadau cymharol perthnasol mae casgliadau Amgueddfa Cymru a'r Museum of English Rural Life |
| **Pennu arwyddocâd trwy feini prawf allweddol:** |

| **Hanesyddol** | **Cymdeithasol** | **Artistig neu aesthetig** | **Gwyddonol, ymchwil neu dechnegol** | **Gwerth ac effaith gymunedol** |
|---|---|---|---|---|
| X | X | | | X |

| | |
|---|---|
| **Ydi'r cofnodion tarddiad yn dda ynteu'n wael?** | Cymysg |
| **Ydi'r gwrthrych / casgliad yn brin?** | Na, dim ond mewn cyd-destun lleol |
| **Beth mae'r gwrthrych / casgliad yn ei gynrychioli?**<br>**Enwch sefydliad sydd â gwrthrych / casgliad cymharol** | Crefftau lleol yng Ngheredigion o'r 18fed i'r 20fed ganrif<br>Amgueddfa Cymru a MERL |
| **Ydi'r gwrthrych / casgliad yn gyfan?**<br>Fel gwrthrych neu gyfres h.y. pâr o sgidiau, tebot â chaead, set gyflawn o fedalau. | Na |
| **A oes potensial ar gyfer dehongli?**<br>**Beth mae hyn yn helpu i'w ddehongli?** | Oes - y gallu i ddehongli crefftau allweddol a gwahanol fathau o waith coed yn ogystal â diwydiannau lleol. Cyfle i ddefnyddio hyn i ddehongli rhannau eraill o'r casgliad yn ehangach, yn cynnwys dodrefn a chasgliadau hanes cymdeithasol. Mae lle i ddefnyddio'r tŵls i ddehongli bywyd gweithiol a bywyd yn y cartref. |
| **Blwch testun rhydd (ar gyfer nodiadau ychwanegol)** | |

| **Tarddiad** | **Pa mor brin neu gynrychioliadwy** | **Cyflwr neu gyfanrwydd** | **Potensial ar gyfer dehongli** |
|---|---|---|---|
| | x | | X |

| | |
|---|---|
| **Pa mor arwyddocaol – yn rhyngwladol / yn genedlaethol (Cymru neu'r Deyrnas Unedig) / yn rhanbarthol / yn lleol** | Rhanbarthol a lleol |

| Datganiad o Arwyddocâd |
|---|
| Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod digon i roi barn bendant am arwyddocâd y casgliad ond mae'r rhestr isod yn dangos y potensial ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ran y gwahanol ffyrdd o edrych ar arwyddocâd:<br><br>**Hanesyddol:**<br>Byddai gwaith ymchwil ychwanegol yn ein galluogi i ddeall:<br>• Crefftau a chrefftwyr lleol<br>• Busnesau a gweithleoedd lleol e.e. Thomas Carriage Works<br>• Y newid mewn tŵls, prosesau a thechnegau gwaith coed dros amser<br>• Patrwm bywyd crefftwyr lleol, y pethau roeddent yn eu defnyddio ac economi crefftau lleol<br><br>**Cymdeithasol:**<br>Mae'r casgliad yn golygu rhywbeth i weithwyr coed heddiw sydd â diddordeb yn yr offer fel tystiolaeth o sgiliau a thechnegau'r gorffennol. Mae hefyd yn rhoi cipolwg ar y defnydd ymarferol a wnaed o dŵls a oedd yn gyffredin yn y gorffennol. Gwelwyd adfywiad mewn diddordeb yn y rhain oherwydd y sylw a gaiff materion fel newid yn yr hinsawdd, ymdrechion i sicrhau datblygiadau di-garbon, cynhwysiant cymdeithasol, a iechyd a lles. Mae grwpiau yn ardal Aberystwyth sydd â diddordeb mewn gweithio gyda'r casgliadau i archwilio'r materion hyn ymhellach<br><br>**Artistig/Aesthetig**<br>Mae gweithwyr coed yn gweld yr offer fel gwrthrychau hardd sy'n adrodd stori crefftwaith y gorffennol – o ran y defnydd a wnaed o'r tŵls a'r grefft o greu'r tŵls eu hunain. Maent yn gynnyrch o safon ac yn ddolen gyswllt werthfawr iawn â'r bobl a fu'n gweithio gyda phren yn y gorffennol fel y maen nhw'n gwneud heddiw.<br><br>**Gwerth ac effaith gymunedol:**<br>Mae'r tŵls yn ddolen gyswllt rhwng pobl heddiw a phobl yn y gorffennol trwy gynrychioli gwaith crefftwyr. Mae rhai ohonynt yn cynrychioli ansawdd y gwaith hwnnw a'r ymrwymiad cryf i waith proffesiynol, o safon uchel. Maent yn golygu rhywbeth i bobl heddiw sy'n trin coed ac maent yn bwysig yn yr adfywiad presennol mewn crefftau coetir a chrefftau gwaith coed.<br><br>**Cynrychiolaeth:**<br>Mae'r casgliad hwn yn cynrychioli crefftau allweddol yng Ngheredigion o'r 18fed ganrif hyd at yr 20fed.<br><br>**Potensial ar gyfer dehongli:**<br>Ar hyn o bryd nid yw'r rhan fwyaf o'r casgliad yn cael ei arddangos na'i ddefnyddio ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Byddai ymchwil ychwanegol yn golygu y gellid defnyddio'r offer i archwilio'r themâu uchod ac yn helpu i ddehongli eitemau eraill yn y casgliadau, fel dodrefn, offer amaethyddol a'r casgliadau hanes cymdeithasol. |

## Astudiaeth achos

### Casgliad Tecstilau Creadigol, Amgueddfa Ceredigion

Cafodd tîm yr amgueddfa arian datblygu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac maent yn datblygu prosiect ar gyfer storfa gasgliadau newydd. Mae'r prosiect yn cynnwys gwaith i ddeall arwyddocâd y casgliadau a sut y gellir defnyddio casgliadau i drafod gwerthoedd cyffredin. Mae'r Datganiad o Arwyddocâd ar gyfer y Casgliad Tecstilau Creadigol (clytwaith a chwiltiau) yn elwa ar ymchwil academaidd, a helpodd i bennu arwyddocâd cenedlaethol ac, o bosib, ryngwladol y casgliad, sy'n cynnwys rhai enghreifftiau prin, ynghyd â lleisiau cymunedol. Roedd y gymuned yn gwerthfawrogi'r tecstilau am fod cymaint o feddwl a sgiliau wedi mynd i mewn i greu'r darnau, oherwydd gofal a straeon y perchnogion, ynghyd â'r waddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Y Cynllun Gweithredu Rhesymoli

Bydd y Cynllun Gweithredu hwn yn eich helpu i benderfynu pa wrthrychau yn eich casgliad y gallech ystyried eu gwaredu. Efallai'ch bod eisoes wedi nodi gwrthrychau y credwch y dylent fod yn rhan o gynllun rhesymoli, ond bydd y Cynllun Gweithredu hwn yn eich helpu i weithio trwy'r gwrthrychau hynny'n drefnus, gan ystyried eu rhinweddau yn erbyn meini prawf penodol i benderfynu pa eitemau y dylid eu cadw yn y casgliad a pha rai y dylid ystyried eu gwaredu.

Bydd y **Cynllun Gweithredu Rhesymoli** yn eich helpu i ateb o leiaf un o'r ddau gwestiwn a ganlyn:

**A ellir dweud nad oes gan y gwrthrych, y grŵp o wrthrychau neu'r casgliad unrhyw arwyddocâd i ddiben eich sefydliad?**

**A ellir dweud nad oes gan y gwrthrych, y grŵp o wrthrychau neu'r casgliad gyfraniad sylweddol at y gwaith o adrodd straeon lleol, cenedlaethol (Cymreig) neu ryngwladol?**

**Beth y bydd y Cynllun Gweithredu Rhesymoli yn eich helpu i'w wneud**

**Canfod casgliadau nad ydynt yn cyd-fynd â diben, gweledigaeth na chenhadaeth eich sefydliad, nad oes iddynt arwyddocâd na gwerth penodol i'ch cymunedau lleol, neu nad ydynt yn eich helpu i adrodd stori Cymru a'i phobl.**

Gall rhesymoli a gwaredu fod yn eiriau brawychus iawn, ond mae angen ystyried yr adnoddau sydd ar gael i chi a ble orau i gyfeirio'r adnoddau hynny er budd yr amgueddfa, y casgliad ehangach a'ch cynulleidfaoedd – mae hyn yn ystyriaeth foesegol, ac yn sicrhau'r bod y gwrthrychau yn eich gofal yn cael eu rheoli yn y ffordd orau.

Gofalwch bob amser eich bod yn dilyn canllawiau sefydledig ar reoli casgliadau a'ch bod yn gweithio i safonau cyfredol y sector amgueddfeydd wrth nodi gwrthrychau y gellir eu gwaredu, fel **safon Spectrum yr Ymddiriedolaeth Casgliadau ar ddad-dderbynodi a gwaredu** (Deaccessioning and disposal - the Spectrum standard). Mae **Pecyn Cymorth Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar Waredu** (Cymdeithas yr Amgueddfeydd - Pecyn Cymorth Gwaredu) yn cynnig cyngor defnyddiol i amgueddfeydd sy'n dymuno rhesymoli eu casgliadau. Cofiwch, hyd yn oed os nad yw eitem yn arwyddocaol i'ch amgueddfa chi, gallai fod iddi ddiben allweddol mewn amgueddfa arall.

**Beth y bydd angen i chi ei wneud:**

1. Efallai bod gennych eisoes restr o wrthrychau o'ch casgliad sydd o dan ystyriaeth ar gyfer eu gwaredu. Neu efallai'ch bod yn dechrau o'r dechrau. Y naill ffordd neu'r llall, gellir defnyddio **Taflen Sbarduno'r Cynllun Gweithredu Rhesymoli** i'ch helpu i weithio'ch ffordd yn drefnus trwy'r gwrthrychau sydd o dan ystyriaeth gennych. Gall rhai o'r anawsterau dogfennu a chadwraeth a nodwyd yn ystod Cam 1 godi gyda rhai o'r gwrthrychau ar y rhestr hon.

2. Efallai y dymunwch weithio fesul gwrthrych, ar draws casgliadau, os yw'ch casgliad yn cynnwys sawl disgyblaeth, neu gallwch ddewis canolbwyntio ar un casgliad penodol ar y tro i ganfod gwrthrychau yn y casgliad hwnnw nad ydynt, er enghraifft, yn bodloni'ch meini prawf caffael, yn cyd-fynd â diben eich sefydliad, yn cynnwys digon o wybodaeth, neu fod eu cyflwr yn peryglu gweddill y casgliad.

3. Wrth weithio trwy'r gwrthrychau y credwch y gellid eu rhesymoli o'r casgliad, mae'n bwysig gwirio bod y gwaith papur cywir yn ei le i ddangos perchnogaeth gyfreithiol, h.y. a oes gennych waith papur o'r adeg y derbyniwyd y gwrthrych i ofal yr amgueddfa, ac sy'n profi bod perchnogaeth y gwrthrych wedi'i drosglwyddo o'r rhoddwr i'r sefydliad? Mae angen hynny i gefnogi'ch achos dros waredu'r gwrthrych(au), ac i ddangos bod gennych hawl cyfreithiol i wneud hynny.

4. Archwilio'r wybodaeth a gedwir am bob gwrthrych:
   - Ffurflen dderbyn gyda gwybodaeth am y rhoddwr a tharddiad y gwrthrych(au)
   - Ffeil hanes gyda dogfennau, ffotograffau a lluniadau cysylltiedig ac unrhyw ymchwil flaenorol a wnaed i'r gwrthrych(au)
   - Cofnodion y gwrthrych(au) – cofnodion o gronfa ddata a / neu ar gardiau mynegai

5. Cynnal ymchwil trylwyr i bob gwrthrych sydd o dan ystyriaeth i'w waredu o'r casgliad neu ei drosglwyddo i gasgliad trin a thrafod / addysgu. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar gofnodion dogfennu'ch casgliadau, ymchwil hanesyddol ac ymgynghori ag arbenigwyr pwnc, lle bo angen.

6. Archwilio'r gwrthrych sydd i'w ychwanegu at y rhestr waredu – os mai ychydig o wybodaeth sydd yn eich cofnodion am yr eitem, a oes unrhyw nodweddion nodedig, fel marciau'r gwneuthurwr, y man lle cafodd ei gynhyrchu, neu farciau adnabod a wnaed gan berchnogion blaenorol a allai'ch helpu i gasglu mwy o wybodaeth? A allai'r marciau hyn helpu i ddatgelu arwyddocâd na sylwyd arno o'r blaen?

7. Beth yw cyflwr y gwrthrych? Gall rhai gwrthrychau gael eu cynnwys ar restr waredu oherwydd eu cyflwr. Er enghraifft, os yw eitem bren wedi'i difrodi'n ddifrifol gan bryfed coed, gall fod y tu hwnt i'w hatgyweirio, a gall beryglu gweddill y casgliad os na chaiff ei thrin neu os oes angen trin yr eitem bob gwanwyn, gan gymryd adnoddau gwerthfawr oddi wrth eitemau eraill mwy arwyddocaol yn y casgliad.

8. A oes cymunedau'n gysylltiedig â'r gwrthrychau y rhoddir ystyriaeth i'w gwaredu? Os ymgynghorir â chymunedau cysylltiedig, gallai hynny ddatgelu bod i'r gwrthrychau hyn arwyddocâd nad oedd yn hysbys o'r blaen, hyd yn oed os nad oedd gennych lawer o wybodaeth am y gwrthrychau na'u tarddiad.

9. Pan fyddwch wedi llunio rhestr o wrthrychau y rhoddir ystyriaeth i'w gwaredu, dilynwch y gweithdrefnau a nodir yn safon Spectrum yr Ymddiriedolaeth Casgliadau ar Ddad-dderbynodi a Gwaredu (Deaccessioning and disposal - the Spectrum standard) a Phecyn Cymorth Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar Waredu (Cymdeithas yr Amgueddfeydd - Pecyn Cymorth Gwaredu)

Bydd **Taflen Sbarduno'r Cynllun Gweithredu Rhesymoli** yn eich helpu i nodi ac asesu gwrthrychau y gallech ystyried eu gwaredu ond, er mwyn symud ymlaen, mae'n rhaid eich bod yn gallu cadarnhau'r berchnogaeth a bodloni'r materion moesegol sy'n gysylltiedig a'u gwaredu.

## Y Cynllun Gweithredu Rhesymoli – Taflen Sbarduno

Gall rhesymoli olygu llawer o bethau, er enghraifft: blaenoriaethu storio, datblygu cynlluniau arddangos, neu ddechrau ar strategaeth waredu. Asesiad ansoddol yw hwn, a gellir defnyddio'r daflen sbarduno i helpu i ddatblygu dull gweithredu rhesymegol er mwyn sicrhau eich bod yn ystyried yr holl dystiolaeth bwysig. Nid yw'r daflen yn hollgynhwysfawr, a dylech ystyried sbardunau gwahanol neu ychwanegol sy'n addas ar gyfer eich amgueddfa chi a'ch rhesymau dros weithredu. Os byddwch yn ystyried gwaredu, dylid defnyddio'r safonau moesegol priodol.

| | |
|---|---|
| **A ydi'r Rhif Derbynodi'n bresennol ac a gadarnhawyd ei fod yn perthyn i'r gwrthrych?** | Opsiynau: Dim yn bresennol, Rhannol bresennol, Wedi'i labelu, Wedi'i farcio, Mewn bocs. |
| **A ydi'r ddogfennaeth yn cadarnhau mai'r amgueddfa yw'r perchennog?** | Opsiynau: Dim dogfennaeth, Cofnod yn y gofrestr dderbynodi heb fanylion rhoddwr, Manylion y rhoddwr wedi'u nodi ond heb eu cadarnhau, Teitl cyfreithiol wedi'i gadarnhau. |
| **Beth yw cyflwr cyffredinol y gwrthrych/ casgliad?** | Opsiynau: Wedi gwaethygu y tu hwnt i waith cadwraeth priodol, Gwael ond byddai costau gwaith cadwraeth yn ormodol, Angen gwaith adfer, Sefydlog ond ddim yn ddigon da i'w arddangos, Sefydlog ac yn ddigon da i'w arddangos. |
| **A ydi'r gwrthrych/ casgliad yn cyfateb i bolisi caffael yr amgueddfa?** | Opsiynau: Dim yn berthnasol hyd y gwyddom, Perthnasol i gyfnod casglu blaenorol, Perthnasol i'r polisïau caffael cyfredol. |
| **A oes lle digonol a phriodol i storio/ arddangos yr eitem(au)?** | Opsiynau: Anodd cael digon o le, Efallai y bydd lle gwael ar gael, Amodau storio cywir ar gael. |
| **A ydi'r gwrthrych/ casgliad yn berthnasol i'r gymuned* mewn ffordd benodol?** | Opsiynau: Dim perthnasedd penodol i'r gymuned, Tybir ei fod yn berthnasol i'r gymuned, Profwyd ei fod yn berthnasol trwy ymgynghori a/neu adolygiad arbenigol. |
| **A ydi'r gwrthrych/ casgliad yn arbennig o berthnasol i un rhan o'r gymuned*?** | Opsiynau: Diddordeb/ perthnasedd cyffredinol, Arbennig o berthnasol i un rhan o'r boblogaeth, Eitemau cynrychioliadol sy'n arwyddocaol i hanes neu wyddorau naturiol yr ardal, Cynrychioliadol o faterion amgylcheddol, Cynrychioliadol o faterion cyfoes/poblogaidd am gyfnod penodol. |
| **A ydi'r gwrthrych/ casgliad yn fwy perthnasol i bolisi casglu amgueddfa arall?** | Opsiynau: Ni wyddom am unrhyw berthnasedd (ar ôl ymchwilio), Perthnasol i amgueddfa arall ond nid oes arnynt mo'i eisiau, Perthnasol i amgueddfa arall ac mae arnynt ei eisiau. |
| **A oes gwerth cenedlaethol (Cymru) neu ryngwladol i'r gwrthrych/ casgliad?** | Opsiynau: Dim perthnasedd cenedlaethol/ rhyngwladol, Perthnasedd cenedlaethol/ rhyngwladol posibl ond bod angen adolygiad arbenigol, Cadarnhawyd perthnasedd cenedlaethol/ rhyngwladol trwy adolygiad neu gyhoeddiad arbenigol. |
| *Os oes angen, ychwanegwch eich meini prawf eich hunain isod cyn dechrau asesu'ch gwrthrych(au)* | |

*Diffinnir cymuned fel y bobl a'r lleoedd sy'n gysylltiedig â chenhadaeth yr amgueddfa. Rhaid i chi ddiffinio'ch cymuned yn gywir trwy ofyn i chi'ch hunan a ydi'r amgueddfa'n darparu ar gyfer pob rhan o'r boblogaeth a phob math o amgylchedd. Er enghraifft, a ydych yn hollol ymwybodol o natur amrywiol y boblogaeth y mae'ch amgueddfa yn ei gwasanaethu? A ydi'ch polisïau casglu a/neu gaffael yn adlewyrchu'ch cymuned? Os nad ydynt, beth y gellir ei wneud i gywiro hynny?

# Y Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Caffaeliadau

Mae penderfynu derbyn gwrthrych neu grŵp o wrthrychau i gasgliad amgueddfa yn benderfyniad pwysig, sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus gan feddwl am y perthnasedd i gylch gwaith yr amgueddfa, blaenoriaethau datblygu casgliadau a'r adnoddau sydd ar gael, yn cynnwys cyfleusterau storio a'r cyfleusterau eraill sy'n angenrheidiol i ofalu am y gwrthrych(au). Mae wynebu'r broses o safbwynt 'cadarnhau arwyddocâd' (determined significance) yn ffordd fuddiol o sicrhau eich bod yn gwneud penderfyniad ystyriol a gwybodus. Gall fod yn sail hefyd dros esbonio wrth roddwyr posibl pam na allwch dderbyn eu rhodd i'r casgliad.

Bwriad y Cynllun Gweithredu isod yw bod yn ffordd syml a sydyn o benderfynu a ydych am dderbyn gwrthrych neu wrthrychau i'r casgliad.

Bydd y **Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Caffaeliadau** yn eich helpu i ateb y cwestiwn hwn:

## A ydi'r gwrthrych neu'r gwrthrychau yn cyfateb i ddiben, gweledigaeth a chenhadaeth y sefydliad, a'ch blaenoriaethau chi o ran datblygu casgliadau?

**Beth y bydd y Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Caffaeliadau yn eich helpu i wneud**

**Penderfynu a ddylech dderbyn gwrthrych neu wrthrychau i'r casgliad ar sail set o feini prawf pwysig, yn cynnwys a yw'r eitemau'n cyfateb i gylch gwaith yr amgueddfa, yn cyd-fynd â'ch Polisi Datblygu Casgliadau presennol chi, ac a yw'r adnoddau angenrheidiol gennych i wneud gwaith rheoli a gofalu priodol.**

**Beth y bydd angen i chi ei wneud:**

1. Defnyddio'r Cynllun Gweithredu hwn ochr yn ochr â'ch trefniadau derbyn arferol.
2. Gallech ddewis **Taflen Sbarduno'r Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Caffaeliadau** fel dogfen dderbyn swyddogol arall, sy'n rhan o'ch gweithdrefnau dogfennu.
3. Gan y gallai hyn fod yn ffordd newydd o weithio i staff yr amgueddfa, efallai yr hoffech drefnu hyfforddiant fel bod eich cydweithwyr yn teimlo'n gyfforddus â'r system newydd ac yn hyderus wrth ei gweithredu.

Gellir defnyddio'r Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Caffaeliadau i asesu arwyddocâd rhodd bosibl. Os na ellir cadarnhau ei bod yn arwyddocaol, ystyriwch yn ofalus a ddylid ychwanegu'r gwrthrych(au) dan sylw at eich casgliad parhaol.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn wedi'i gynllunio i fod yn rhan o'ch gweithdrefnau derbyn arferol ac mae'n offeryn defnyddiol i helpu â'r broses benderfynu wrth ystyried a ddylid derbyn rhodd neu gaffael trwy bryniant. Bydd yn eich helpu i osgoi problemau gydag adnoddau a gwybodaeth am gasgliadau yn y dyfodol trwy wneud penderfyniadau gwybodus a fydd yn atal hynny o'r dechrau. Os ydych yn defnyddio'r Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Caffaeliadau, mae'n dal yn bwysig gweithio trwy elfennau perthnasol Camau 1 a 2 gan fod angen i chi ddeall eich casgliadau, cyflwr eich dogfennaeth a'r adnoddau sydd ar gael er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch beth i'w dderbyn i'r casgliad. Y nod trwy fabwysiadu'r broses hon yw peidio â chreu problemau o ran adnoddau a dogfennaeth yn y dyfodol. Yn ogystal, bydd gweithio trwy'r broses hon yn cyfrannu at ddatblygu cofnodion derbyn a ffeiliau hanes cynhwysfawr a fydd, yn eu tro, yn bwydo i mewn i ragor o gofnodion rheoli casgliadau ac asesiadau arwyddocâd yn y dyfodol.

## Astudiaeth achos

### Amgueddfa Cwm Cynon

Bu staff yr amgueddfa'n hyfforddi gwirfoddolwyr i'w galluogi i reoli eitemau a allai gael eu caffael pan fydd pobl yn dod ag eitemau i'r amgueddfa. Roedd y broses yn cynnwys defnyddio matrics i ystyried cyflwr y gwrthrych, a oedd yn cyfateb i bolisi casglu a gweledigaeth yr amgueddfa, ei gysylltiad â'r gymuned a'r adnoddau angenrheidiol i ofalu amdano. Roedd hyn yn galluogi gwirfoddolwyr i gymryd eitemau y gellid ystyried eu caffael a gwrthod yn hyderus eitemau anaddas. Cafodd y matrics hwn ei addasu ar gyfer y Pecyn Cymorth Newydd a'i ymgorffori yn y cwestiynau sbarduno ar gyfer Caffael.

# Y Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Caffaeliadau – Taflen Sbarduno

Diben y cynllun gweithredu arwyddocâd caffaeliadau yw cadarnhau arwyddocâd gwrthrych cyn ei dderbyn i'r casgliad. Dyma broses ansoddol sy'n gofyn am ystyriaeth a thrafod gofalus a dealltwriaeth lawn o genhadaeth yr amgueddfa. Bydd eich polisïau casglu'n diffinio'r materion cyfreithiol a moesegol sy'n codi – mae'r cynllun gweithredu hwn yn gofyn i chi ystyried prawf bod y gwrthrych y bwriedir ei gaffael wir yn adlewyrchu diben yr amgueddfa a'r gymuned* y mae'n ei gwasanaethu.

| | |
|---|---|
| **A allwch chi gadarnhau y gellir trosglwyddo perchnogaeth i'r amgueddfa?** | Opsiynau: Dim tystiolaeth ar gael, Manylion y darpar roddwr wedi'u cadarnhau, Manylion a llofnod y rhoddwr wedi'u darparu. |
| **Os yw'n briodol, a ellir trosglwyddo hawliau eiddo deallusol i'r amgueddfa pan gaiff y gwrthrych ei gaffael?** | Opsiynau: Ddim yn gwybod beth yw'r statws o ran eiddo deallusol, Dim modd trosglwyddo'r hawliau eiddo deallusol, Gellir trosglwyddo'r hawliau eiddo deallusol fel y cadarnheir gan y daliwr. |
| **Beth yw cyflwr cyffredinol y gwrthrych/ casgliad?** | Opsiynau: Wedi gwaethygu y tu hwnt i waith cadwraeth priodol, Gwael ond byddai costau gwaith cadwraeth yn ormodol, Angen gwaith adfer, Sefydlog ond ddim yn ddigon da i'w arddangos, Sefydlog ac yn ddigon da i'w arddangos. |
| **A ydi'r gwrthrych/ casgliad yn cyfateb i bolisi caffael yr amgueddfa?** | Opsiynau: Dim yn berthnasol hyd y gwyddom, Perthnasol i gyfnod casglu blaenorol, Perthnasol i'r polisïau caffael cyfredol. |
| **A oes lle digonol a phriodol i storio/ arddangos yr eitem?** | Opsiynau: Anodd cael digon o le, Efallai y bydd lle gwael ar gael, Amodau storio cywir ar gael. |
| **A fyddai modd arddangos y gwrthrych/ casgliad yn dilyn gwaith cadwraeth angenrheidiol?** | Opsiynau: Dim modd arddangos, Dim modd arddangos ond mae i'r gwrthrych/ casgliad werth ar gyfer ymchwil, Byddai modd arddangos yr eitem(au) ar ôl ad-drefnu'r arddangosiadau cyfredol neu mewn arddangosfa dros dro, Byddai'n hawdd arddangos yr eitem(au) fel rhan o arddangosfeydd presennol. |
| **A ydi'r gwrthrych/ casgliad yn berthnasol i'r gymuned* mewn ffordd benodol?** | Opsiynau: Dim perthnasedd penodol i'r gymuned, Tybir ei fod yn berthnasol i'r gymuned, Profwyd ei fod yn berthnasol trwy ymgynghori a/neu adolygiad arbenigol. |
| **A ydi'r gwrthrych/ casgliad yn arbennig o berthnasol i un rhan o'r gymuned*?** | Opsiynau: Diddordeb/ perthnasedd cyffredinol yn unig, Arbennig o berthnasol i un rhan o'r boblogaeth, Eitemau cynrychioliadol sy'n arwyddocaol i hanes neu wyddorau naturiol yr ardal, Cynrychioliadol o faterion amgylcheddol, Cynrychioliadol o faterion cyfoes/ poblogaidd am gyfnod penodol. |
| **A wnaed ymchwil academaidd neu wyddonol i statws neu darddiad y gwrthrych/ casgliad?** | Opsiynau: Dim ymchwil neu fod yr amgueddfa'n tybio ei fod yn bwysig, Ymchwil mewnol neu ymgynghori cymunedol, Adolygu gan gymheiriaid, Gwaith wedi'i gyhoeddi, Adroddiad arbenigol. |
| **A oes gwerth cenedlaethol (Cymru) neu ryngwladol i'r eitem?** | Opsiynau: Dim perthnasedd cenedlaethol/ rhyngwladol, Perthnasedd cenedlaethol/ rhyngwladol posibl ond bod angen adolygiad arbenigol, Cadarnhawyd perthnasedd cenedlaethol/ rhyngwladol trwy adolygiad neu gyhoeddiad arbenigol. |
| *Os oes angen, ychwanegwch eich meini prawf eich hunain isod cyn dechrau asesu'ch gwrthrych(au)* | |

*Diffinnir cymuned fel y bobl a'r lleoedd sy'n gysylltiedig â chenhadaeth yr amgueddfa. Rhaid i chi ddiffinio'ch cymuned yn gywir trwy ofyn i chi'ch hunan a ydi'r amgueddfa'n darparu ar gyfer pob rhan o'r boblogaeth a phob math o amgylchedd. Er enghraifft, a ydych yn hollol ymwybodol o natur amrywiol y boblogaeth y mae'ch amgueddfa yn ei gwasanaethu? A ydi'ch polisïau casglu a/neu gaffael yn adlewyrchu'ch cymuned? Os nad ydynt, beth y gellir ei wneud i gywiro hynny?

# Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Arddangosfa

Gallwch ddefnyddio'r Cynllun Gweithredu hwn i bennu casgliadau neu wrthrychau sy'n ychwanegu gwerth at arddangosfa neu arddangosiad, boed hynny'n un dros dro neu led-barhaol. Wrth baratoi arddangosfa, rhaid cael diffiniad clir o'r pwnc a natur y gynulleidfa. Os nad yw'r arddangosfa'n gwneud y pwnc yn hygyrch i'r gynulleidfa, mae'r amgueddfa'n methu â chyflawni ei phrif amcanion.

Bydd y **Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Arddangosfa** yn eich helpu i ateb un neu fwy o'r cwestiynau hyn:

**A ydi'r casgliad/ gwrthrych yn cyfateb yn agos i ddiben yr arddangosfa/ arddangosiad arfaethedig ac a yw'n ychwanegu gwerth at y pwnc?**

**A oes digon o wybodaeth gysylltiedig gyda'r casgliad/ gwrthrych fel y gall y gynulleidfa o'ch dewis ddeall ei arwyddocâd?**

**A ydych yn cynnwys y casgliad/ gwrthrych yn yr arddangosfa oherwydd ei arwyddocâd i ddiben yr arddangosfa neu ddim ond gan fod iddo arwyddocâd cyffredinol i'r amgueddfa?**

**Beth y bydd y Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Arddangosfa yn eich helpu i'w wneud**

**Pennu gwrthrychau neu gasgliadau sy'n hyrwyddo diben arddangosfa trwy fod yn ddolen gyswllt uniongyrchol a hygyrch i'r prif faes/ feysydd pwnc.**

**Creu hierarchaeth o wrthrychau perthnasol a all helpu wrth ddylunio arddangosfa sy'n cyflawni'r diben a ddiffiniwyd ymlaen llaw trwy wneud y pwnc yn hygyrch i gynifer ag y bo modd o ymwelwyr yr amgueddfa.**

Mae dylunio arddangosfeydd yn broses gymhleth a dyrys ac ni all y Cynllun Gweithredu hwn gymryd lle arbenigedd yn y maes. Fodd bynnag, bydd yn golygu y gellir creu rhestr o wrthrychau neu gasgliadau perthnasol i'w hystyried yn ystod cyfnod dylunio arddangosfa arfaethedig. Mae'r Cynllun Gweithredu'n rhagdybio bod y maes neu feysydd pwnc wedi'u diffinio a bod gwaith wedi'i wneud i geisio dadansoddi natur y gynulleidfa/cynulleidfaoedd arfaethedig. Dyma gamau hanfodol wrth ddatblygu unrhyw arddangosfa. Dylid paratoi datganiad ar y thema/themâu a'r gynulleidfa/cynulleidfaoedd a'i ddefnyddio i gyfrannu at y broses o ddewis gwrthrychau i'w cynnwys. Bwriad y Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Arddangosfa yw cefnogi'r dewis hwnnw o wrthrychau ar ôl cytuno ar y thema neu'r themâu.

Cofiwch y gall fod yn demtasiwn cynnwys cynifer o wrthrychau ag y mae lle iddynt mewn arddangosfa neu arddangosiad ond, yn aml, gall gorlenwi fel hyn greu dryswch. Mae T**aflen Sbarduno'r Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Arddangosfa** yn cynnig cyfle i greu hierarchaethau o wrthrychau neu gasgliadau wedi'u seilio ar sawl paramedr. Defnyddiwch hon i ofyn cwestiynau ynghylch perthnasedd y gwrthrychau i'r pwnc/pynciau a'r gynulleidfa/cynulleidfaoedd ynghyd â sicrhau bod gwybodaeth gysylltiedig wir a chywir ar gael i sicrhau gwaith dehongli cryno ond diamwys.

**Beth y bydd angen i chi ei wneud:**

1. Archwilio'r wybodaeth sydd gennych eisoes am y gwrthrychau yn y casgliad sydd i'w adolygu.
   - Ffurflen dderbyn gyda'r wybodaeth a nodwyd pan ddaeth y gwrthrych(au) i ofal yr amgueddfa
   - Ffeil hanes gyda dogfennau, ffotograffau a lluniadau cysylltiedig ac unrhyw ymchwil blaenorol a wnaed i'r gwrthrych(au)
   - Cofnodion o'r gwrthrych(au) – cofnodion o gronfa ddata a/neu gardiau mynegai a chofnodion o'r gofrestr dderbynodi
   - Deunydd archifol a ffotograffau i roi rhagor o ddyfnder i'r hyn a wyddom am y gwrthrychau – gall yr eitemau hyn roi gwybodaeth am y sawl oedd yn berchen ar y gwrthrychau, ble cawsant eu prynu ac oddi wrth bwy, sut y cawsant eu gwneud a sut y cawsant eu defnyddio.
2. Cynnal rhagor o ymchwil hanesyddol / ymchwil desg i'r gwrthrychau er mwyn cael dealltwriaeth dda ohonynt, a'u harwyddocâd posibl.
3. Canfod cymunedau sy'n gysylltiedig â'r casgliad ac ymchwilio i'r ffordd orau o gysylltu â nhw.
4. Holi'r cymunedau dan sylw i ddeall yn well pa mor berthnasol yw'r casgliadau i'w profiad nhw. Bydd hyn yn gwella dealltwriaeth eich sefydliad o'r gwrthrychau, a gallwch ddefnyddio'r wybodaeth i gyfrannu at eich Asesiad o Arwyddocâd Casgliadau, gwella'ch dogfennaeth ac, yn y pen draw, ddehongli'r gwrthrychau cysylltiedig mewn ffordd effeithiol.
5. Cynnal rhagor o ymchwil i arwyddocâd posibl y casgliad neu'r gwrthrych yn erbyn y paramedrau a bennwyd ar gyfer yr arddangosfa o ran dylunio a thema.
6. Canfod pa mor hygyrch yw unrhyw wybodaeth gysylltiedig neu nodweddion cynhenid (intrinsic) y gwrthrych neu'r casgliad.
7. Creu rhestr hir ac yna restr fer o'r gwrthrychau a ddewiswyd wrth ddilyn y cynlluniau gweithredu. Yn ddelfrydol, dylai'r broses sifftio gynnwys cynrychiolwyr o'r ddarpar gynulleidfa er mwyn sicrhau bod y gwrthrychau dan sylw'n berthnasol, cywiro unrhyw ragfarn, a sicrhau nad yw'r ffaith fod y detholwyr yn gyfarwydd ag eitemau'n arwain at gamddealltwriaeth ynghylch eu harwyddocâd.

## Astudiaeth achos

### Amgueddfa Bêl-droed i Gymru

Yn ddiweddar, mae tîm yr amgueddfa yn Wrecsam wedi cynnal Asesiad o Arwyddocâd Casgliad Pêl-droed Cymru er mwyn cefnogi datblygiad amgueddfa newydd a helpu i sicrhau cyllid. Roedd penodi curadur pêl-droed yn 2021 yn rhan ganolog o'r broses hon. I raddau helaeth, mae gwerth y casgliad yn gysylltiedig â chwaraewyr a gemau penodol ac roedd gwybodaeth a phrofiad y curadur, nad oedd ar gael i'r amgueddfa o'r blaen, yn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r casgliad o'r safbwynt hwn.

# Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Arddangosfa – Taflen Sbarduno

Diben y Cynllun Gweithredu Arwyddocâd Arddangosfa yw helpu i benderfynu pa eitemau y gellir eu defnyddio mewn arddangosfa neu arddangosiad ar bwnc penodol gan ddefnyddio gwrthrychau sydd naill ai'n rhan o gasgliad yr amgueddfa neu a allai fod ar gael i'w benthyca dros dro. Dyma broses ansoddol sy'n gofyn am ystyriaeth a thrafod gofalus a dealltwriaeth lawn o genhadaeth yr amgueddfa a diben yr arddangosfa. Yn ogystal, mae'n rhaid i chi fod yn gwbl ymwybodol o anghenion eich cleientiaid; yn ogystal â'ch helpu i ddatblygu gwaith dehongli priodol, bydd hyn o gymorth wrth ddewis pa wrthrychau i'w defnyddio.

| | |
|---|---|
| **A oes perthynas uniongyrchol rhwng y gwrthrych a prif ddiben yr arddangosfa?** | Opsiynau: Dim cysylltiad uniongyrchol ond gellir ei ddefnyddio i ddarlunio pwynt yn y dehongliad, Dim cysylltiad uniongyrchol ond mae'n debyg i eitemau allweddol sy'n rhan o'r pwnc, Perthynas uniongyrchol â phwnc yr arddangosfa, Hanfodol er mwyn sicrhau dehongliad cywir. |
| **A ydi'r gwrthrych yn hygyrch yn ei hanfod (Intrinsically Accessible) i gynulleidfa eang?** | Opsiynau: Ffurf aneglur y mae angen llawer o waith i'w ddehongli, Cymhleth ond byddai'n bosib ei ddehongli, Gwrthrych hanesyddol neu wyddonol sy'n anghyfarwydd, Gwrthrych cyfarwydd, hawdd ei ddehongli. |
| **A oes dogfennaeth yn cadarnhau bod yr amgueddfa'n berchen ar y gwrthrych neu fod ganddi gytundeb benthyca?** | Opsiynau: Dim dogfennaeth, Cofnod yn y gofrestr dderbynodi heb fanylion y rhoddwr, Manylion y rhoddwr wedi'u nodi ond heb eu cadarnhau, Cytundeb benthyca wedi dod i ben neu ar fin dod i ben, Teitl cyfreithiol wedi'i gadarnhau, Cytundeb benthyca mewn grym am gyfnod yr arddangosfa. |
| **A oes amodau penodol gan y rhoddwr/ benthyciwr a allai atal defnyddio'r gwrthrych?** | Opsiynau: Amodau diogelwch ac amgylcheddol yn cyfyngu ar ddefnydd, Amodau hawlfraint mewn grym ac mae angen eu monitro, Cyfyngiadau eraill ond mae'n bosibl ymdopi â nhw, Dim cyfyngiadau. |
| **A oes gofynion yswiriant penodol ar gyfer y gwrthrych?** | Opsiynau: Amodau Cynllun Indemniad y Llywodraeth, Cyfyngiadau yswiriant eraill neu brisiau yswiriant mor uchel fel na ellir defnyddio'r gwrthrych, Amodau y gellir eu bodloni er mwyn sicrhau polisi yswiriant priodol. |
| **A oes lle digonol a phriodol i arddangos yr eitem?** | Opsiynau: Anodd darparu digon o le, Efallai bod modd addasu'r lle ond gallai fod angen symud eitemau eraill, Lle arddangos sy'n addas ar gyfer maint/ natur yr eitem. |
| **A oes angen amodau amgylcheddol penodol ar y gwrthrych rhag iddo ddirywio'n ormodol?** | Opsiynau: Tueddol iawn o gael ei effeithio gan nifer o gyfryngau dirywio, Eitemau sensitif ond o dan amodau arddangos rheoledig gallent beidio â dirywio'n ormodol, Angen amgylchedd sefydlog yn y gofod arddangos, Dim angen amodau amgylcheddol penodol/ ychydig iawn o ddirywiad a ragwelir, Gellid ei osod mewn arddangosfa agored. |
| **A ydi'r gwrthrych/ casgliad wedi'i arddangos i'r cyhoedd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf?** | Opsiynau: Dim cysylltiad â'r cyhoedd, Cyflwr/ amgylchedd anaddas/ diffyg trefniadau diogelwch yn cyfyngu ar y cysylltiad â'r cyhoedd, Cael ei arddangos dros dro yn achlysurol, Cael ei arddangos yn barhaol. |
| **A oes digon o wybodaeth gysylltiedig ar gael?** | Opsiynau: Gwybodaeth sylfaenol yn cadarhau beth ydyw, Gwybodaeth gysylltiedig yn cynnwys hanes cefndir/ perchnogaeth, Gwaith dehongli ar gyfer ei arddangos o'r blaen ar gael ond heb ei gadarnhau, Gwaith dehongli ar gyfer ei arddangos o'r blaen ar gael ac wedi'i gadarnhau. |
| **Sut mae'r gymuned wedi ymwneud â'r gwrthrych/ casgliad?** | Opsiynau: Dim ymwneud a/neu fod yr amgueddfa'n tybio y byddai diddordeb, Ymwneud 'goddefol' trwy arddangosfeydd neu addysg, Ymwneud ymgynghorol trwy gyfarfodydd neu weithdai penodol. |
| **A oes gwerth cenedlaethol (Cymru) neu ryngwladol i'r eitem?** | Opsiynau: Dim perthnasedd cenedlaethol/ rhyngwladol, Perthnasedd cenedlaethol/ rhyngwladol posibl ond bod angen adolygiad arbenigol, Cadarnhawyd perthnasedd cenedlaethol/ rhyngwladol trwy adolygiad neu gyhoeddiad arbenigol. |
| *Os oes angen, ychwanegwch eich meini prawf eich hunain isod cyn dechrau asesu'ch gwrthrych(au)* | |

## Ysgrifennu Datganiad o Arwyddocâd

Ar ôl i chi gwblhau'r camau uchod, byddwch yn gallu creu rhestr ddilys o wrthrychau neu gasgliadau i'w cynnwys yn yr arddangosfa. Gall fod yn fuddiol trefnu'r ffeithiau a gasglwyd eisoes yn ddatganiadau o arwyddocâd ynghylch y gwrthrychau a ddewiswyd. Gall hyn helpu i ddatblygu cynllun yr arddangosfa drwy amlygu'r prif wrthrychau i'w cynnwys yn ganolbwyntiau i'r arddangosiadau (displays). Er y gall y datganiadau hyn o arwyddocâd ymwneud yn bennaf â phwnc arddangosfa benodol, gall y wybodaeth a gesglir fod yn fuddiol mewn gwaith arall ar arwyddocâd eich casgliadau.

Mae'r rhestr hon yn cynnig awgrymiadau o'r hyn y gallech ystyried ei gynnwys:

- Manylion pryd y cynhaliwyd yr asesiad a gan bwy
- Disgrifiad o'r gwrthrych, y grŵp o wrthrychau neu'r casgliad yn y Datganiad o Arwyddocâd – disgrifiad manwl ac asesiad o gyflwr
- Ymchwil i'r gwrthrych(au) neu'r casgliad – gwybodaeth sydd gennych am eu tarddiad ac am y casgliad, pobl yr ymgynghorwyd â nhw, ymchwil hanesyddol a wnaed, gan gynnwys cyfeiriadau (references)
- Y meini prawf a ddefnyddiwyd wrth asesu'r gwrthrych(au) neu'r casgliad
- Canlyniadau'r asesiad
- Datganiad yn crynhoi pam y mae'r gwrthrych(au) neu'r casgliad yn arwyddocaol
- Ymchwil neu ymgynghori pellach a wneir fel rhan o asesiad parhaus, ynghyd ag unrhyw nodiadau ychwanegol

## Astudiaeth achos

**Crochenwaith Llanelly, Amgueddfa ac Oriel Gelf Parc Howard**

Arweiniodd prosiect o'r enw Straeon Crochenwaith yn Amgueddfa Parc Howard at arddangosfa newydd o gasgliad Crochenwaith Llanelly wedi'i chyd-guradu. Trwy waith ymchwil ac ymgysylltu â'r gymuned cafwyd golwg ffres ar y casgliad a chyfle i ddeall ei arwyddocâd. Roedd y gwaith cadwraeth a wnaed fel rhan o'r prosiect yn help i ddeall hanes y casgliad. Daeth gwaith ymchwil â safbwyntiau o'r tu allan, yn cynnwys sylwadau casglwyr a chymheiriaid; a thrwy gynnal gweithgareddau cymunedol rhoddwyd cyfleoedd i leisiau o'r cymunedau. Mae hyn wedi galluogi'r tîm i gynhyrchu Datganiad o Arwyddocâd ar gyfer y casgliad ac i ychwanegu gwybodaeth am werth darnau penodol i Wasanaeth Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin.

# CAM 4

# Adolygu ac Ailasesu

## Yn y Cam hwn, byddwch yn:

**Ystyried beth rydych wedi'i gyflawni wrth anelu at eich nodau (a ddiffiniwyd yng Nghamau 1 a 2)**

A oedd popeth yn rhedeg yn esmwyth ynteu a gafwyd problemau? A allwch ddatrys y problemau hynny cyn cychwyn ar broses asesu newydd?

**Trafod gwell ffyrdd o weithio**

A oes ffyrdd haws o sicrhau'r deilliannau a'r cynnyrch (outcomes and outputs) a ddymunir, ar sail profiad? Cymharwch eich prosesau chi â phrofiadau pobl eraill.

**Defnyddio canfyddiadau'ch adolygiad wrth gynnal asesiadau eraill.**

Gallwch ddysgu yn ôl beth aeth yn dda a beth nad aeth cystal.

## Adolygu eich prosiect

Ar ôl i chi gwblhau'ch Cynllun Gweithredu presennol, mae'n bwysig i chi ailasesu'r blaenoriaethau a bennwyd gennych ar ddechrau'r prosiect (Camau 1 a 2). Mae'n debygol y bydd proses yr Asesiad o Arwyddocâd Casgliadau yn brosiect parhaus, sy'n cynnwys llawer o dasgau, ac y byddwch yn dychwelyd ati dros amser. Gall y syniad o beth sy'n arwyddocaol newid ac, yn y dyfodol, efallai y byddwch yn dymuno dychwelyd at gasgliadau sydd eisoes wedi'u hadolygu i ailasesu eu harwyddocâd ar sail gwybodaeth neu feini prawf newydd. Ar ôl i chi gwblhau ac adolygu'ch prosiect presennol efallai y gwelwch fod materion newydd wedi dod i'r amlwg a allai olygu bod angen i chi ailasesu'r blaenoriaethau a bennwyd yng Ngham 1. Gall eich profiadau o weithio trwy Gam 3 (Cynlluniau Gweithredu) eich arwain i gredu bod angen i chi ailasesu eich Adolygiad o Gasgliadau yng Ngham 2.

Er mwyn adolygu'ch prosiect gallech gynnal cyfarfod gyda'ch cydweithwyr sydd wedi ymwneud â'r Asesiad o Arwyddocâd, tebyg i werthusiad diwedd prosiect, lle gallwch drafod:

- Beth weithiodd yn dda
- Beth na weithiodd cystal
- Pa heriau y daethoch ar eu traws
- Sut wnaethoch chi oresgyn unrhyw heriau
- Beth y gallech ei wella y tro nesaf
- Unrhyw anawsterau ddaeth i'r amlwg o ran rheoli casgliadau neu ofalu amdanynt a sut y gellir mynd i'r afael â nhw
- Blaenoriaethau ar gyfer y prosiect nesaf i asesu arwyddocâd

Mae'r cam adolygu hwn yn hollbwysig. Mae'n bwysig cynnal gwerthusiad gonest o'r llwyddiannau a'r anawsterau a nodwyd yn eich prosiect gorffenedig. Dylech ystyried yn arbennig a ydych wedi cyflawni'r nodau a bennwyd yng Ngham 1 a 2 ac a yw'r canlyniadau a grëwyd gennych yng Ngham 3 yn ddilys a bod modd eu cadarnhau. Er enghraifft, mae'n werthfawr iawn cymharu gwybodaeth am yr adnoddau disgwyliedig â'r gwariant gwirioneddol er mwyn sicrhau bod amcangyfrifon am adnoddau yn y dyfodol yn dod yn fwyfwy cywir.

Os yw'ch gwaith yng Ngham 2 wedi canfod rhagor o anawsterau o ran rheoli casgliadau, mae'n well dechrau yng Ngham 1 ac ystyried a oes angen i chi ailasesu'ch blaenoriaethau, gan ymdrin â'r materion hynny cyn symud ymlaen at y gwaith o asesu arwyddocâd.

Hyd yn oed os gwelir, yng Ngham 2, nad yw'ch systemau rheoli casgliadau'n ddigon cywir neu gynhwysfawr, gallwch adolygu'ch blaenoriaethau. Ewch ati i bennu prosiect hwylus y gallwch wneud gwaith arwyddocâd ystyrlon arno yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael o ran rheoli'r casgliadau a'r adnoddau sydd ar gael. Hyd yn oed os mai dim ond un ag rhan fach o'r blaenoriaethau o ran arwyddocâd yr ydych yn ymdrin, mae'n un dasg yn llai i'w hystyried yn y tymor byr.


Ond cofiwch:

- Nid oes y fath beth ag asesiadau arwyddocâd 'sydyn a syml'. Mae arnynt angen adnoddau a data cefndir digonol a dylid eu cynllunio mewn digon o bryd.
- Er gwaethaf y goblygiadau o ran adnoddau, dylai amgueddfeydd geisio sicrhau bod Adolygu Casgliadau ac Asesu Arwyddocâd yn dod yn elfen barhaus o'u gwaith. Mae angen eu gwerthuso o bryd i'w gilydd a gwneud gwaith cyraeddadwy i ddatblygu'r prosiect.
- Ychydig iawn o amgueddfeydd fydd yn gallu mynd i'r afael â phob tasg arwyddocâd ar yr un pryd ac felly mae angen gweithredu fesul tipyn.
- Peidiwch â diystyru'r angen am asesiadau arwyddocâd oherwydd diffyg amser neu adnoddau eraill. Trefnwch i wneud gwaith sy'n realistig ac yn gyraeddadwy. Efallai mai dim ond digon o adnoddau i wneud ychydig o waith arwyddocâd ar y tro sydd gan rai amgueddfeydd ond bydd pob darn o waith, dros amser, yn adeiladu adnodd pwysig.

# Yn olaf, pob lwc gyda'r prosiect o'ch dewis!

**Mae diagram yn dangos y broses bedwar cam a geirfa o'r termau a ddefnyddir yn y pecyn cymorth hwn i'w gweld ar y tudalennau nesaf.**

**Paratöwyd y Pecyn Cymorth hwn gan Headland Design a Kevin Mason.**


CAM 1
Cynllunio'ch Dull Gweithredu
Ystyried cyd-destun eich prosiect
Penderfynu beth i'w asesu
Ystyried yr agweddau ymarferol
Deall pa offer y mae arnoch eu hangen
CAM 2
Adolygu Casgliadau
Paratoi'ch casgliadau
Cadarnhau data'ch casgliadau
Cynnal Adolygiad o Gasgliadau
Deall unrhyw gyfyngiadau
CAM 3
Asesu Arwyddocâd
Dewis y Cynllun Gweithredu cywir
Cynnal asesiad manwl
Cadarnhau eich penderfyniadau
Paratoi datganiad o arwyddocâd
CAM 4
Adolygu ac Ailasesu
Cynnal adolygiad beirniadol o'ch prosiect
Ailasesu eich dull gweithredu
Pennu blaenoriaethau newydd
Dysgu o'ch profiad
Dim ond os ydych yn ffyddiog bod eich paratoadau yng Ngham 1 yn dal yn ddilys

# Geirfa'r pecyn cymorth hwn

| | |
|---|---|
| **Adnoddau** | Y bobl, yr amser a'r arian y mae eu hangen i gyflawni tasg. |
| **Adolygu ac Ailasesu** | Y broses yng Ngham 4 o gynnal adolygiad beirniadol o'ch gwaith yn asesu arwyddocâd o Gam 1 hyd at Gam 3 gyda'r diben o ddysgu wrth yr hyn a aeth yn dda a beth nad aeth cystal. |
| **Adolygu'r Casgliadau** | Proses yng Ngham 2 i ganfod safon y gwaith rheoli casgliadau a wneir ar gasgliad neu wrthrych e.e. a ydi'r ddogfennaeth, yr amodau storio, yr amgylchedd ac ati yn iawn? |
| **Agwedd Athronyddol at y Gwaith** | Yng nghyd-destun Cam 3, ystyried y data ansoddol ehangaf posibl wrth feddwl am arwyddocâd casgliad neu wrthrych; y gwrthwyneb i hyn yw ceisio diffinio arwyddocâd gan ddefnyddio taflen sgorio â rhifau. |
| **Amgylchedd** | Ansawdd y man lle cedwir y gwrthrych neu'r casgliad; gallai hyn gynnwys mesur lefelau golau, golau uwchfioled, tymheredd a lleithder cymharol, ac ati. |
| **Arwyddocâd** | Pwysigrwydd casgliad neu wrthrych yn y cyd-destun a ddiffinnir gan amgueddfa neu ei chymuned. |
| **Arwyddocâd Canfyddedig (Perceived Significance)** | Asesiad tybiannol o bwysigrwydd tebygol gwrthrych neu gasgliad; weithiau, gall hyn olygu bod ei arwyddocâd wedi'i dderbyn fel ffaith ers amser hir, heb i hynny gael ei herio, neu gallai fod wedi'i seilio ar honiadau personol na chafodd eu profi. |
| **Asesiad o Arwyddocâd** | Y broses yng Ngham 3 o gynhyrchu datganiad ar bwysigrwydd casgliad neu wrthrych mewn perthynas â'r blaenoriaethau y cytunodd amgueddfa arnynt. |
| **Cadwraeth** | Mae Cadwraeth Adferol yn cyfeirio at drin gwrthrychau neu gasgliadau i'w hatal rhag dirywio; Mae Cadwraeth Ataliol yn cyfeirio at y gwaith o sicrhau bod yr amgylchedd lle cedwir gwrthrychau neu gasgliadau yn helpu i sicrhau eu bod yn dirywio cyn lleied ag y bo modd. |
| **Caffael** | Derbyn a chofnodi teitl eitemau a roddwyd neu a gymynroddwyd i amgueddfa neu a brynwyd neu a dderbyniwyd fel arall ganddi. |
| **Cam** | Elfen ar wahân yn y broses o asesu arwyddocâd yng nghyd-destun y pecyn cymorth hwn. |
| **Cenedlaethol** | Yn y pecyn cymorth hwn, mae 'cenedlaethol' yn cyfeirio at gymuned Cymru yn ei chyfanrwydd yn hytrach nag at gymunedau unigol sy'n gysylltiedig ag amgueddfa. Byddai amgueddfa genedlaethol eisoes yn diffinio'i chymuned fel hyn. |
| **Cymorth Allanol** | Barn ddeallusol neu gymorth technegol sy'n angenrheidiol wrth ymdrin â gwrthrychau neu gasgliadau ac nad yw ar gael yn yr amgueddfa. |
| **Cymuned** | Cynulleidfa a rhanddeiliaid yr amgueddfa; defnyddir y term yn bennaf wrth ddiffinio diben yr amgueddfa a'i gweithgarwch o ran casglu. Gellir ei ddefnyddio hefyd fel term i ddiffinio rhan benodol o'r boblogaeth e.e. yn ôl grŵp ethnig, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ac ati. Mae angen i'r amgueddfa sicrhau bod pob cymuned berthnasol, yn cynnwys rhai a allai fod o dan anfantais, yn cael ei chynnwys yn ei diben. |
| **Cynllunio** | Yng Ngham 1, deall gofynion llawn y prosiect o'ch dewis cyn dechrau adolygu ac asesu; canfod anawsterau posibl ynghyd â'r cynnyrch a'r deilliannau a ragwelir; pennu targedau ar sail anghenion yr amgueddfa. |

| | |
|---|---|
| **Cynnyrch (Outputs)** | Canlyniadau diriaethol proses neu strategaeth e.e. adroddiad neu ddatganiad. |
| **Datganiad o Arwyddocâd** | Asesiad ysgrifenedig o gasgliad neu wrthrych sy'n ystyried pwysigrwydd yr eitem(au) yng nghyd-destun cenhadaeth a diben yr amgueddfa, neu yn y cyd-destun rhyngwladol ehangach fel y'i diffinnir o dan Gonfensiwn yr Hâg (1954). |
| **Deilliannau (Outcomes)** | Canlyniadau anniriaethol proses neu strategaeth e.e. gwelliant mewn ymgysylltu cymunedol. |
| **Dirywiad** | Effeithiau cyfryngau fel golau, golau uwchfioled (UV), amrywiadau mewn lleithder cymharol (RH) ac ati ar wrthrychau; dylid sicrhau'r effeithiau lleiaf posibl trwy waith cadwraeth adferol os yw hynny'n ymarferol. |
| **Dogfennaeth** | Y dystiolaeth a'r wybodaeth gysylltiedig sy'n golygu bod modd adnabod y gwrthrych neu'r casgliad ac sy'n sicrhau bod y wybodaeth hon wedi'i chysylltu â'r gwrthrych neu'r casgliad ni waeth ble mae'r eitemau'n cael eu cadw yn yr amgueddfa neu fan arall. |
| **Enw Gwrthrych** | Enw a roddir i wrthrych unigol; gallai hwn fod yn enw cyffredin, yn enw gwyddonol neu'n ddiffiniad manwl a ddefnyddir yn gyffredin. |
| **Ffeiliau Derbynodi** | Pob gohebiaeth a chofnod arall yn ymwneud â throsglwyddo teitl gwrthrych neu gasgliad i'r amgueddfa. |
| **Ffurflen Deitl** | Cofnod trosglwyddo teitl sy'n cydnabod mai'r amgueddfa sy'n berchen ar wrthrych yn awr. |
| **Ffurflen Dderbyn (Entry Form)** | Ffurflen dderbyn dau-gam a ddefnyddir i gydnabod trosglwyddo gwrthrych i ofal amgueddfa, dros dro, tra disgwylir am ragor o ymchwil, gwaith adnabod neu benderfyniad ynghylch caffael. Mae'n cynnwys opsiwn i gwblhau'r caffaeliad trwy lofnod y rhoddwr neu'r gwerthwr. |
| **Gwaredu** | Defnyddio pwerau cyfreithiol yr amgueddfa ac unrhyw bolisi a safonau proffesiynol y cytunwyd arnynt i ddad-dderbynodi gwrthrychau neu gasgliadau sydd wedi'u caffael yn flaenorol |
| **Gweithle** | Lle penodol a neilltuwyd ar gyfer ymdrin â gwrthrychau neu gasgliadau. |
| **Hawlfraint** | Yr hawl i atgynhyrchu neu ddosbarthu deunydd gwarchodedig (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 a ddiwygiwyd yn 2014, neu unrhyw offerynnau cyfreithiol dilynol) neu ei ddefnyddio fel arall. |
| **Hygyrch yn ei Hanfod (Intrinsically Accessible)** | Gwrthrych neu gasgliad y mae'n hawdd ei adnabod am yr hyn ydyw wrth ei ffurf a'i natur yn unig, fel mai ychydig iawn o ddehongli ychwanegol y bydd arno ei angen; gall hyn fod yn asesiad goddrychol iawn ac felly mae angen gofal. |
| **Label** | Label y gellir ei dynnu yn nodi rhif derbynodi'r gwrthrych e.e. label clymu, gwaith dehongli ar yr arddangosiad, neu ddisgrifiad o'r hyn sydd mewn bocs. |
| **Lleoliad** | Lleoliad presennol gwrthrych neu gasgliad yn yr amgueddfa; gall hyn fod yn lleoliad y mae modd ei adnabod mewn arddangosiad, storfa, labordy cadwraeth, ac ati. |
| **Marc** | Dull lled-barhaol o roi rhif derbynodi ar wrthrych. Dylai fod modd ei ddad-wneud ond ni ddylai fod modd ei dynnu'n hawdd. |
| **Matrics** | Taflen sgorio i helpu i ddeall a yw casgliad neu wrthrych yn addas ar gyfer asesiad neu adolygiad o gasgliad. |
| **Perchnogaeth** | Teitl cyfreithiol gwrthrych neu gasgliad, sydd wedi'i gadarnhau. |
| **Perthnasedd** | Y ffordd y mae gwrthrych neu gasgliad yn cefnogi prif ofynion yr amgueddfa a/neu ei chymunedau, fel y nodir yng nghenhadaeth, gweledigaeth a diben yr amgueddfa. |

| | |
|---|---|
| **Polisi Caffael** | Datganiad amgueddfa am yr hyn y bydd/ na fydd yn ei gaffael a'i dderbynodi i'w chasgliad parhaol. |
| **Polisi Datblygu Casgliadau** | Dogfen yn manylu ar ddatganiad amgueddfa o’i diben, trosolwg o’r casgliadau cyfredol, themâu a blaenoriaethau ar gyfer casglu, rhesymoli a gwaredu yn y dyfodol, a fframwaith cyfreithiol a moesegol ar gyfer caffael a gwaredu. |
| **Rhesymoli** | Blaenoriaethu casgliadau / gwrthrychau o ran gofynion penodol amgueddfa; gallai hyn gynnwys ad-drefnu storfa, defnyddio adnoddau cyfyngedig neu, o bosib, broses waredu. |
| **Rhif Derbynodi** | Rhif adnabod clir ac unigryw ar gyfer gwrthrych mewn amgueddfa sy’n cysylltu’r gwrthrych hwnnw â’r holl wybodaeth gysylltiedig trwy ddogfennaeth. |
| **Rhyngwladol** | Yn y pecyn cymorth hwn, defnyddir ‘rhyngwladol’ fel term sy’n cwmpasu’r ‘holl bobloedd’, fel y’i diffinnir yng Nghonfensiwn yr Hâg 1954 ac mewn mannau eraill i olygu dynolryw. |
| **Storfa** | Y lleoliad hawdd ei adnabod lle cedwir gwrthrychau neu gasgliadau pan na fyddant yn cael eu defnyddio ar gyfer arddangos, ymchwil na diben arall. |
| **Taflen Waith** | Samplau o dablau gwag neu daenlenni Excel sydd wedi’u cynllunio i helpu i ddewis casgliadau posibl i’w defnyddio yng Ngham 2 a Cham 3. |
| **Tarddiad** | Y lleoliad(au) neu’r cyd-destun gwreiddiol lle ffurfiwyd gwrthrych neu gasgliad; gwybodaeth yn ymwneud â phobl gysylltiedig (gwneuthurwr, cyn-berchennog ac ati); defnyddir hyn yn aml i ddisgrifio hanes perchnogaeth casgliadau celf yn arbennig. |
| **Trin a thrafod (Handling)** | Symud gwrthrychau neu gasgliadau o'r naill le i'r llall neu i'w harchwilio neu eu trin; mae'n rhaid eu trafod yn ofalus bob amser rhag i'r gwrthrychau gael eu difrodi neu i'r sawl sy'n eu trafod gael anaf. |